ECO'R WYDDFA

Rhif 251 RHAGFYR 1998 Pris 30c

Yn y rhifyn hwn . . .

★ Llyfr y Chwilotwr (t.15)
★ Dyddiadur y Mis (t.17)
★ America Ddoe (t.25)
★ America Heddiw (t.16)

Y rhifyn nesaf . . .

Daw o'r wasg ddydd Iau, Rhagfyr 17. Diolch i'r Prifathro caiff yr Eco ei blygu yn Ysgol Brynrefail gan y disgyblion. Dylai'r rhai fydd yn nôl y papur i'r gwahanol bentrefi gysylltu â'r Trefnydd Bwndelu am ragor o wybodaeth (01286) 871550

Cyflwyno ein Bro i'r Byd

Dros y misoedd nesaf bydd ysgolion cynradd bro'r *Eco* yn cydweithio â'i gilydd ar bosiect addysgol cyffrous, 'Fy Mro yn y Flwyddyn 2000'. Bydd y prosiect yn creu ar y Rhyngrwyd safle gyfrifiadurol a fydd yn cofnodi ac adlewyrchu bywyd y fro ar droad y mileniwm.

Bydd pob ysgol yn casglu gwybodaeth am ei hardal ei hun ac yn bwydo'r wybodaeth i gyfrifiadur. Ysgol Gynradd Llanrug fydd yn gyfrifol am hel y deunydd a chreu'r safle ar y Rhyngrwyd ar gyfer y wybodaeth honno. Unwaith y bydd y safle wedi'i chreu bydd modd i unrhyw un gael gafael ar y wybodaeth trwy 'ymweld' â'r safle ar y Rhyngrwyd.

Mae'r ysgolion yn awyddus i gael gwybodaeth am bob math o gymdeithasau — corau a bandiau; capeli ac eglwysi; clybiau chwaraeon a chylchoedd llenyddol; ynghyd â busnesau'r fro. Bwriedir llunio tudalen a fydd yn cyflwyno braslun o gefndir y gymdeithas a gair am ei gobeithion at y dyfodol, a llun neu ddau o adeilad neu aelodau'r gymdeithas. Bydd y tudalennau hyn yn gyflwyniad byw o hanes a bywyd ein pentrefi. Mantais fawr y Rhyngrwyd yw bod modd diwygio a diweddaru'r wybodaeth yn ôl y gofyn. Mae'n bosibl y gellir cynnwys rhai o dudalennau'r *Eco* ar y safle o fis i fis, a gwneud yr *Eco* y papur bro cyntaf ar y Rhyngrwyd.

Gobeithir creu'r safle a rhoi rhywfaint o wybodaeth arni erbyn mis Ionawr 1999, a thros y misoedd canlynol bydd yr ysgolion yn mynd ati o ddifri i hel y wybodaeth. Bydd y plant nid yn unig yn arfer defnyddio'r dechnoleg newydd ond hefyd yn dysgu llawer iawn am eu cynefin.

Bydd camera digidol arbennig ar gael ym mhob ysgol yn ei thro i dynnu lluniau ar gyfer y prosiect. Dylai cymdeithasau a busnesau gysylltu â phennaeth eu hysgol leol am ragor o wybodaeth am y cyfle arbennig hwn i sicrhau bod pobl ym mhedwar ban byd yn cael gwybod am eu rhan hwy ym mywyd ein hardal ar droad y mileniwm.

Cysylltwch â'r ysgolion canlynol — Gwaun Gyfi: Mr Gareth Parry (01286) 870687; Llanrug: Mr Robin Williams (01286) 674905; Bethel: Mr Teifion Thomas (01248) 670663; Cwm-y-glo: Mrs Mair Lloyd Hughes (01286) 870860; Dolbadarn: Mrs G. Elisabeth Roberts (01286) 870711; Penisarwaun: Mr Robert O. Humphreys (01286) 870879; Waunfawr: Mrs Eryl Thomas (01286) 650451.

Menter Fachwen yn newid Aelwyd

Mae'n debyg fod trigolion pentref Cwm-y-glo wedi sylwi bod llawer o fynd a dod yn hen siop Tŷ Llundain yn ystod y misoedd diwethaf. Mae Menter Fachwen wedi prynu ac adenewyddu'r adeilad a bellach yn ei ddefnyddio fel canolfan hyfforddi a swyddfa newydd Menter.

Elusen yw Menter Fachwen sy'n gweithio yn y gymuned i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl o bob gallu. Sefydlwyd Menter ddeng mlynedd yn ôl ym mhentref Fachwen ond nid oedd yr hen swyddfa ym Mryn Peris bellach yn ddigon mawr i ymdopi â'r ehangu a fu'n ddiweddar, felly trowyd yr hen swyddfa'n gaffi.

Mae'r lleoliad newydd yng Nghwm-y-glo yn ddelfrydol gan ei fod yn eithaf canolog i'r prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan Menter ym mhentrefi'r fro.

Gobaith Menter Fachwen yw y bydd y rhan helaeth o'r llawr isaf a'r gwaith datblygu yng nghefn yr adeilad ar gael fel adnodd ar gyfer trigolion y fro yn y dyfodol agos. Diolch i gais llwyddiannus i'r Loteri Genedlaethol, byddwn yn gallu cyflogi swyddog datblygu fydd yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau amrywiol yn Nhŷ Llundain ac am annog gwirfoddolwyr i roi o'u hamser a'u sgiliau mewn amrwiol ffyrdd fydd o fudd i'r gymdeithas leol.

Llawer o ddiolch i wirfoddolwyr Ymddiredolaeth y Tywysog am eu cymorth yn ddiweddar i baentio a phapuro rhan o'r adeilad ac i Ferched y Wawr am eu cyfraniad o deledu a fideo i gynorthwyo â'r gwaith o hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Fenter Fachwen, a'r cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddoli, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau i'w gwneud ynglŷn â'r cyfleusterau sydd eu hangen o fewn y pentref y gellid, o bosib, eu darparu o Dŷ Llundain, cysylltwch â Christine Jones ar (01286) 872 014.

Maes Carafannau Gorau Cymru i'w ddatblygu yn Llanrug

gyda 12 o swyddi parhaol newydd

Mae Maes Carafanau Brynteg, Llanrug wedi newid dwylo a chysylltiad y teulu Thornley wedi dod i ben. Y perchnogion newydd yw cwmni James McAllister, sy'n rhedeg tair safle arall yng ngogledd Cymru. Enillodd y safleoedd hynny dros ugain o wobrau Bwrdd Croeso Cymru a 'Cymru yn ei Blodau' am ansawdd uchel eu hamgylchedd.

Bwriad y teulu McAllister yw buddsoddi'n sylweddol yn y parc er mwyn gwella ei safonau. Byddant yn canolbwyntio ar garafanau sefydlog uchel eu safon, yn hytrach na charafanau teithiol a phebyll.

Paratowyd cynlluniau yn egluro'r newidiadau arfaethedig a gwahoddwyd cymdogion Brynteg, ynghyd â chynghorwyr lleol, i fynegi barn ar yr hyn sydd mewn golwg. Yn y diwrnod agored, a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, rhoddwyd cyflwyniad Cymraeg gan y ddarlledwraig Teleri Bevan, sy'n gyfaill i'r teulu, ac roedd Carafanau Brynteg y gorau yng Nghymru.'

Ychwanegodd, 'Os gwireddir ein cynlluniau bydd nifer y staff parhaol yn mwy na dyblu i oddeutu 22 o swyddi llawn amser, gyda chynnydd tebyg yn nifer y swyddi tymhorol. Eisoes rydym wedi plannu miloedd lawer o fylbiau, fel cennin Pedr a chlychau'r gog. Bydd ein cynlluniau yn gwella safon y cyfleusterau presennol yn y Parc ac hefyd yn lleihau problemau trafnidiaeth a gafwyd yn y gorffennol ar y ffordd gul sy'n arwain ato.'

arddangosfeydd lliwgar dwyieithog yn ogystal.

Meddai James McAllister, cyfarwyddwr a rheolwr y maes carafanau: 'Dymunaf ddiolch i bawb a ddaeth i'r diwrnod agored i weld ein gwelliannau arfaethedig, a fydd mewn cytgord llwyr â harddwch naturiol y llecyn hyfryd hwn. Ein bwriad yn syml yw gwneud Parc

★ BYDD CYFARCHION ★ NADOLIG HYSBYSEBWYR BETHEL, WAUNFAWR, LLANRUG A CHAEATHRO YN Y RHIFYN NESAF DDAW ALLAN O'R WASG ★ NOS IAU, 17 RHAGFYR ★

ECO'R WYDDFA

Rhif 251
RHAGFYR 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 17
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, RHAGFYR 7
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
CHWEFROR	IONAWR 18	IONAWR 28	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts
MAWRTH	CHWEFROR 22	MAWRTH 4	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn
EBRILL	MAWRTH 22	EBRILL 1	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands
MAI	EBRILL 19	EBRILL 29	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts
MEHEFIN	MAI 17	MAI 27	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

Apêl Nicaragua

Annwyl Olygydd,

Ddechrau Tachwedd mae'n siŵr i chwi weld lluniau neu glywed am y trychineb dychrynllyd a ddigwyddodd yn Nicaragua pan drawyd y wlad gan gorwynt Mitch. Gorchuddiwyd hanner y wlad gan lifogydd. Diflannodd pentref cyfan o dan dirlithriad a laddodd 1,500 — llawer ohonynt yn blant. Mae degau o filoedd yn ddigartref a phobl mewn dirfawr angen bwyd a meddyginiaeth. Cafwyd sôn am achosion o'r afiechyd colera.

Efallai y carech wybod fod gan Gymru ei hapêl argyfwng i leddfu peth ar ddioddefaint pobl Nicaragua. Ers dros deuddeg mlynedd mae Ymgyrch Cefnogi Nicaragua yng Nghymru wedi bod yn darparu cymorth ymarferol i'r wlad hon yng nghanolbarth America. Wrth ymweld â'r wlad rydym wedi dod i adnabod rhai yn bersonol. Down ar eich gofyn yn awr eithaf eu hargyfwng.

Anfonwch unrhyw gyfraniad i NSC Cymru, Tŷ Capel Calfaria, Heol y Bedyddwyr, Pen-y-groes, Gwynedd LL54 6NU. Gwnewch sieciau'n daladwy i 'NSC Cymru'. Bydd pob ceiniog a gesglir yn cael ei anfon trwy fudiadau Nicaragua a'r Groes Goch Ryng-wladol yn Nicarague.

Yr eiddoch yn gywir,

BEN GREGORY
Ysgrifennydd
Ymgyrch Gefnogi Nicaragua

Y BBC yn chwilio am siaradwyr

Annwyl Olygydd,

Dros y pum mis nesa mi fyddwn ni'n gwneud cyfres o gyfweliadau dwyawr o hyd yr un, ar hyd a lled Cymru — hyd at 200 o unigolion — yn trafod lle mae nhw'n byw . . . beth mae nhw'n ei fwyta . . . a beth mae nhw'n ei gredu . . . ac yn y blaen.

Y bwriad yw creu archif hanesyddol a chymdeithasol a gaiff gartref parhaol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain, fel rhan o Brosiect Hanes Llafar y Mileniwm i'r BBC.

Mae hwn yn brosiect fydd yn digwydd ar hyd a lled ynysoedd Prydain gydag 8,000 o gyfweliadau yn cael eu recordio — y prosiect hanes llafar mwyaf yn Ewrop. Yn seiliedig ar y cyfweliadau Cymraeg, byddwn hefyd yn paratoi cyfres o raglenni radio arbennig i'w darlledu ar Radio Cymru yn yr hydref y flwyddyn nesaf.

Rydym yn chwilio am drawsdoriad eang o bobl — ifanc ac yn hen, mewn gwaith neu heb waith, pobl wedi ymddeol, pobl leol a phobl ddŵad. Nid chwilio am *arbenigwyr* neu rai sy'n brofiadol fel siaradwyr cyhoeddus yr ydym, ond unigolion cyffredin gan fod gan bawb rywbeth *anghyffredin* i'w ddweud.

Os carai eich darllenwyr gynnig eu henwau, neu gynnig enwau ungiolion eraill, mi fyddem ni'n gwerthfawrogi cael sgwrs â nhw fel man cychwyn. Os oes gennych ddiddordeb gallwg gysylltu ag un ai Owain Arfon Williams neu Jon Gower ar **(01222) 322 206** neu trwy lythyr atom i **Prosiect Hanes Llafar, Ystafell 4020, Y Ganolfan Ddarlledu, BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.**

Diolch i'ch papur am roi'r cyfle yma i ni fel ein bod ni'n gallu sicrhau cynrychiolaeth deg o bob cymuned yng Nghymru.

Yn gywir,

JON GOWER

Eisteddfod Môn 2000

Annwyl Olygydd,

Carwn ddwyn sylw eich darllenwyr fod Eisteddfod Môn 2000 yn cael ei chynnal yn Llanfairpwll.

Yn naturiol mae'r gost o gynnal yr Eisteddfod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac y mae llwyddiant yr achlysur yn dibynnu'n helaeth ar garedigrwydd a haelioni unigolion a chwmnïau sy'n barod i gyfrannu'n ariannol. Diben y llythyr hwn yw gwahodd unrhyw un sy'n awyddus i noddi cystadleuaeth arbennig i gysylltu â'r Trysorydd, **Alwyn Roberts, 26 Y Wern, Llanfairpwll, Ynys Môn (01248) 714 622.** Bydd enwau'r noddwyr yn cael eu cyhoeddi yn y Rhestr Testunau a gan y bydd yn rhaid i hwnnw fynd i'r wasg **cyn diwedd Chwefror 1999,** byddem yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi gwybod i'r Trysorydd pa gystadleuaeth yr ydych am ei noddi cyn gynted â bo modd.

Buasai unrhyw gyfraniad mawr neu fach yn cael ei werthfawrogi.

Gyda llawer o ddiolch am bob cymorth a chefnogaeth.

Yn gywir,

ERYL WYN DAVIES
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Godre'r Coed, 6 Y Wern
Llanfairpwll, Ynys Môn.

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

SPAR
Y STORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

NEWID CYMAR

Nid yn aml y bydd unrhyw bapur newydd yn cyhoeddi pennawd o'r fach ac y mae hyd yn oed gwaedgwn y gwter yn meddwl ddwywaith cyn defnyddio'r fath eiriau erbyn heddiw. A rhaid i'r *Eco* frysio i egluro mai sôn am *ddawns* y mae'r pennawd yn hytrach nac am berson arbennig!

Dyna deitl dawns werin a gyfansoddwyd gan Idwal Williams o Lanrug, ac a enillodd iddo Dlws yr Ŵyl yn ddiweddar yng Ngŵyl Cerdd Dant, Yr Wyddgrug a'r Cylch. Nid yw cyfansoddi dawnsfeydd gwerin yn ddieithr iddo, oherwydd enillodd y Tlws yng Ngŵyl Cerdd Dant Aberystwyth y llynedd, a dyma'r pumed tro iddo ennill y Tlws hwn.

Eleni roedd y gystadleuaeth yn gofyn am ddawns werin i dri neu bedwar cwpl gan ddefnyddio patrymau traddodiadol. Y beirniaid oedd Cliff Jones ac Eirlys Britton, hyfforddwyr Dawnswyr Nantgarw, a chafodd Idwal ganmoliaeth y beirniaid am ddawns newydd wreiddiol. Mae Idwal yn hyfforddwr Dawnswyr Caernarfon ers nifer o flynyddoedd ac y mae'r ddawns newydd eisoes yn rhan o'u rhaglen am y gaeaf hwn. Er mwyn darganfod addasrwydd y ddawns bu'r ddau feirniad hefyd yn ei defnyddio gyda Dawnswyr Nantgarw a chymaint ei llwyddiant, gofynnwyd am ganiatâd Idwal i'w defnyddio ganddynt hwythau.

Mae'n amlwg, felly, y bydd 'Newid Cymar' yn boblogaidd iawn ymysg dawnswyr de a gogledd Cymru dros y misoedd nesaf.

Bydd Dawnswyr Caernarfon yn cyfarfod yn rheolaidd bob nos Iau am 7.30 yn Yr Aelwyd, Stryd yr Eglwys, Caernarfon. Mae gwahoddiad cynnes i bobl ifanc oedran ysgol uwchradd a hŷn i fynychu'r ymarferion os oes diddordeb ganddynt. I'r rhai hollol dibrofiad, mae hyfforddiant ar gael. Gallwch hefyd gysylltu ag Idwal Williams ar (01286) 673485.

GWEITHIO YN BUCHAREST

Yn ystod y mis diwethaf bu Helen Morris, 7 Rhes Fictoria yn Bucharest, Romania yn gweithio am wythnos mewn cartref i blant amddifad. Aeth ugain o bobl drosodd i'r Casa de Capri Scolari sy'n gartref i 150 o enethod rhwng 5 a 18 oed a chafwyd croeso cynnes gan y plant. Bu pawb yn gweithio'n galed drwy'r wythnos yn atgyweirio a phaentio'r cartref ac yn gwario amser gyda'r plant anffodus hyn, gan ddangos rhywfaint o obaith iddynt a dod a mymryn o gariad i'w bywydau trist.

Mae'r prosiect hwn yn cael ei gynnal ers tair blynedd a gobeithir trefnu taith arall yno ymhen blwyddyn — os bydd y mudiad yn gallu hel digon o arian.

Hoffai Helen ddiolch i'r canlynol am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth ariannol: First Hydro; Bysus Ieuan Williams, Deiniolen; Garej Beran; Clwb Ceidwadwyr Caernarfon; R & I, Caernarfon; Tafarn y Black Boy, Caernarfon a phawb a werthodd ac a brynodd docynnau raffl; teulu a ffrindiau oll a fu'n brysur yn casglu nwyddau ac anrhegion i blant y cartref.

Os hoffai rhywun roi rhodd tuag at y mudiad, cysylltwch â Helen Morris ar (01286) 870 702.

AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS
BE SY 'MLAEN- MIS RHAGFYR '98

ARDDANGOSFA NADOLIG Y PLANT
GAN YSGOL CWM Y GLO
RHAGFYR 7 - IONAWR 4

SIOPA NADOLIG
10% I FFWRDD
AR NWYDDAU'R SIOP DRWY'R MIS

CAFFI'R FFOWNTAN
MINS PEIS CARTREF A BARA BRITH
AR WERTH NAWR

ORIAU AGOR
AR AGOR SUL - GWENER 10AM - 4PM
AR AGOR DYDD CALAN
AR GAU RHAGFYR 24,25 & 26 RHAGFYR

NOSON CAWL & CHAN
gyda
HOGIA'R WYDDFA
& ARIA
Rhagfyr 9fed am 7pm

£2.00
o flaen llaw
neu £2.50
ar y drws
(i gynnwys
powlen o
gawl o gaffi'r
Ffowntan)

Bydd bws yn codi pobl y pentref am 7pm tu allan i'r *'Prince of Wales'* ac am 7.10pm tu allan i'r *Cyngor Cymuned*
Diolch i Mynydd Gwefru

Mae TOCYNNAU YN BRIN felly ARCHEBWCH EICH TOCYN NAWR drwy gysylltu a Nia neu Julie ar
01286 870630

O SIAMBAR SELWYN

Hanner can mlynedd yn ôl fe gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau. Ond steddfod sir Fôn oedd hi, oherwydd ar y dydd Mawrth fe goronwyd John Eilian, a phrynhawn Iau fe gadeiriwyd Rolant o Fôn. Dau brifardd o Fôn.

Ym mis Awst y flwyddyn nesa fe gynhelir y brifwyl ym Môn am y bedwaredd waith a da gennyf ddeall fod trefniadau ar y gweill i gyhoeddi cyfrol i goffáu y cymeriad hoffus Rolant o Fôn — un y cefais i y fraint o fod yn gyfaill agos iddo.

Ddechrau'r mis hwn mi dreuliais ddiwrnod hyfryd yng nghwmni y Parchedig Emlyn Richards, Cemaes, Môn, yn dwyn i gof atgofion am Rolant, gan mai Emlyn sy'n gyfrifol am gasglu'r cyfan ynghyd ar gyfer y gyfrol.

Y tro cynta i mi weld Rolant oedd yn Eisteddfod Genedlaethol Hen Golwyn (1941) — eisteddfod ar raddfa fechan a gynhaliwyd mewn neuadd. Yma yr enillodd Rolant ei gadair genedlaethol gynta am ei awdl 'Hydref'. Plentyn ysgol oeddwn i ar y pryd ac wedi mynd i Hen Golwyn efo Mam gyda'r bwriad o gael gweld y cadeirio. Er i ni sefyll yn y ciw am oriau ni fuom yn ddigon ffodus i gael mynediad i'r neuadd ond cofiaf yn dda i'r stiward wrth y drws dynnu ein sylw at ŵr ifanc cringoch, gan ddweud, 'Dacw fo bardd y gadair'. Ia, cip yn unig gefais i ar Rolant y diwrnod hwnnw ac roedd ei enw'n hollol ddieithr imi.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957 y deuthum i'w adnabod. Cofiaf yn dda gydgerdded ag o o'r maes i'r dref. Roedd y clwy cipio cadeiriau wedi gafael ynof erbyn hynny ac roedd Rolant yn cymryd diddordeb yn fy nhipyn gwaith. Mi gefais gerydd ganddo hefyd am ddal ati i gipio mân gadeiriau.

Cynigiodd Rolant sawl tro am y gadair genedlaethol a bu'n eistedd ar ei braich droeon a hynny yn gynnar yn ei oes. Bu bron iddo â chipio cadair Wrecsam (1933), pan gipiwyd hi gan Trefin am ei awdl, 'Harlech'. Hefyd bu Rolant yn agos am gadair Caernarfon (1935) pan enillwyd hi gan Gwyndaf am ei awdl, 'Magdalen'. Cyn gynted y gwelodd Rolant destunau Dolgellau fe fynnodd gilio o sŵn y byd a'i bethau gan sicrhau ystafell i fyfyrio, lle clywai sŵn y môr yn crafu'r creigiau. Bu'n byw yn yr awyrgylch hwnnw drwy'r gaeaf y bu'n cyfansoddi'r awdl, gan ymgolli yn ei waith hyd oriau mân y bore.

Doedd ryfedd iddo ddweud wrtha i, pan ofynnais iddo, 'Pryd oeddech chi'n gwybod eich bod wedi ennill cadair Dolgellau, Rolant?'

Ei ateb oedd, 'Pan rois hi i lawr y *letter-box*'.

Gofynnais iddo sawl tro pa lyfrau y dylai prentis o fardd eu darllen a'u hastudio, a'i ateb pendant oedd, 'Gwybodaeth o dy Feibl, 'ngwas i'.

Ceir sawl stori o'r llys amdano — gan mai cyfreithiwr oedd Rolant wrth ei alwedigaeth — a'r orau gen i yw hon:

Rolant yn amddiffyn rhyw 'ddafad ddu' o gymeriad gan ei wyngalchu trwy gydol y gwrandawiad. *'Any previous convictions?'* gofynnodd cadeirydd y Fainc. Wel, roedd 'na restr hyd braich yn erbyn y cyhuddedig.

'Wel, Mr Jones,' meddai'r cadeirydd, 'rydych chi wedi siarad yn gefnogol iawn dros eich cleient, ond fe glywsoch chi ei record o. Be fedrwn ni 'i wneud?'

'Wel,' meddai Rolant yn ei lais gwerinol, crynedig ac apelgar, 'mae o wedi bod yn gwsmar reit dda i chi dros y blynyddoedd — gadwch iddo fynd yn rhad ac am ddim y tro yma.'

I orffen am y tro yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni 1957. Rolant oedd yn arwain y gweithrediadau yn y Babell Lên (yr hen sied bren gartrefol honno) a'r gynulleidfa braidd yn swnllyd ac afreolus.

Wel, rŵan, dowch,' meddai Rolant, 'setlwch i lawr i ni ga'l dechra — ma'r amsar yn mynd.'

'Telynores Dwyryd sy wedi colli'i chês,' meddai llais o'r dorf.

'Dew,' meddai Rolant, 'ma'n rhaid mai twrna gwael oedd ganddi!'

Ia, tipyn o gês oedd Rolant o Fôn — 'y gwylaidd pur o galon'. Efallai y caf gyfle i sôn mwy amdano o hyn i'r brifwyl. Rwy'n hynod falch bod cyfrol i'w goffáu ar y gweill — mae'n hen bryd.

A ninnau ar drothwy Nadolig arall, pa well ffordd i dynnu'r llenni dros ffenest y siambar am y tro na dyfynnu englyn Rolant o Fôn i'r Ŵyl:

Awn i weld Ei anwyldeb at ei Grud
Daw gwawr hedd o'i wyneb;
Llwyddo'n iawn ni allodd neb
A ddibrisiodd Ei breseb.

DIOLCH

Dymuna Myra Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Diolch hefyd i Rhiannon a phawb yn Arfonia am y blodau hardd. Diolch yn fawr.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Tachwedd 16eg, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri i'w Cyfarfod Blynyddol. Yn absenoldeb y llywydd, ymgymerwyd â'r gweithgareddau gan Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian. Croesawyd Mrs Pat Parry, Waunfawr i'r cyfarfod fel VCO. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn — Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Eleanor Williams; Trysorydd: Mrs Carol Houston. Cafwyd adroddiad gan Mrs Pat Parry ar yr ymgyrch i godi arian i swyddfa ganolog Sefydliad y Merched Gwynedd. Cyflwynwyd pum punt i bob cangen i gychwyn ymdrech leol a bu'r ymateb yn rhagorol gan fwyafrif canghennau Gwynedd a'r cyfanswm a dderbyniwyd oddeutu dwy fil o bunnau.

Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Betty Owen a Mrs Eleanor Williams. Mrs Pat Parry enillodd wobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston.

Trefnir cinio Nadolig y gangen yn Meifod, Bontnewydd, nos Fawrth, Rhagfyr 15fed. Mae trefniadau'r noson yng ngofal Mrs Gwenllian Edwards.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Yn ystod mis Tachwedd, dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd, cymerodd nifer helaeth o'r aelodau a'u ffrindiau ran yn apêl flynyddol *Operation Christmas Child* a chafwyd cefnogaeth deilwng iawn i'r apêl.

Nos Lun, Tachwedd 9fed, cynhaliwyd pwyllgor Cymanfa Dosbarth Padarn yn y Festri dan lywyddiaeth Mr Eifion Williams, Cefnywaun, pryd y daeth cynrychiolaeth dda o eglwysi'r Dosbarth ynghyd. Y prif fater oedd trefnu Cymanfa 1999 ac fe'i cynhelir yng Nghapel Brynrefail ar y Sul cyntaf o Fai. Pasiwyd i barhau a chynnal rihyrsal ar gyfer y Gymanfa ym Mrynrefail ar nos Sul yn ystod mis Ebrill. Penderfynwyd cynnal yr Arholiad Llafar yn ystod mis Chwefror 1999, yn dilyn yr ymateb ffafriol i'r arbrawf y llynedd.

Nos Fercher, Tachwedd 18fed, mynychodd nifer o aelodau'r eglwys Seiat Dosbarth Cylch Eryri a gynhaliwyd yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Mater y Seiat oedd 'Yr Her i Newid' a'r agorwr oedd y Parchg Dafydd Ll. Hughes.

GWASANAETHAU MIS RHAGFYR.

6: Parchg Trefor Jones, Caernarfon (5.30)

13: Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (5.30)

20: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr aelodau a'r plant. Croeso cynnes i bawb.

Parchg H. Gwynfa Roberts (5.30)

DEUNYDD RHIFYN NESAF ERBYN 7 RHAGFYR

OS GWELWCH YN DDA

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

'Un funud fach . . .'

GWELD DUW

'Pasia, 'ta!'

Yn Ysbyty Gwynedd roeddwn i y diwrnod o'r blaen pan waeddodd rhywun hynny ar f'ôl.

Wrth gerdded ar hyd y coridor gwelais ddau ddyn yn gosod arwyddion newydd uwchben un o'r drysau tân. Yn ddigon busneslyd ceisiais sylwi ar yr arwyddion a gweld beth oedd ar yr hen rai a beth oedd ar y rhai newydd. Sylwais hefyd mai ar gadair yn hytrach nag ysgol bwrpasol yr oedd y dyn yn sefyll, a synnu at hynny o gofio mai rhywbeth ynglŷn â diogelwch oedd yr arwyddion!

Ta waeth, wedi i mi basio y clywais y llais yn gweiddi ac yn edliw nad oeddwn wedi dweud dim wrth y dyn a safai ar ben y gadair. Troi rownd wedyn a sylwi fy mod yn adnabod y dyn yn dda. Roeddwn mor brysur yn edrych ar yr hyn yr oedd yn ei wneud fel nad oeddwn wedi edrych arno fo ei hun o gwbl. A hawdd iawn yw gwneud yr un peth yn union efo Duw. Gallwn sylwi ar lawer iawn o bethau y mae Duw yn eu gwneud heb edrych ar Dduw ei hun.

Mae yna lawer sy'n ei chael yn hawdd iawn dotio at yr hyn a wnaeth y Duw mawr yn ei greadigaeth. Talent arbennig yw honno i sylwi ar fanylder a dyfnder byd natur, a byddai'n dda gennyf petai'r ddawn honno wedi'i rhoi i mi. Ond un peth yw gweld harddwch a rhyfeddod y byd o'n cwmpas, a mater hollol wahanol yw gweld llaw Duw'r Creawdwr y tu cefn i'r cyfan.

Fe ddaw'r Nadolig cyn bo hir, a byddwn yn clywed eto yr hanes am yr hyn a wnaeth Duw ganrifoedd yn ôl wrth anfon ei Fab i'r byd. Ond un peth fydd cofio'r hyn a wnaeth bryd hynny, a mater hollol wahanol fydd edrych mewn ffydd ar y baban hwnnw sy'n cael ei gynnig yn Arglwydd a Gwaredwr i ni heddiw.

Mynnwn edrych ar Dduw ei hunan yn ei Fab Iesu Grist a pheidio bodloni ar edrych ar hyn a wnaeth ef. Wedi'r cwbl, gweld ei wyneb yw'r ffordd i'w adnabod.

JOHN PRITCHARD

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

GARTREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Miss Maggie Jane Jones, Y Foel, wedi cael dod gartref wedi iddi dreulio rhai wythnosau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri yn ddiweddar. Dymunwn iddi wellhad llwyr a buan ac y cawn ei gweld yng ngweithgareddau'r ardal yn reit fuan.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Mr a Mrs R. Williams, 3 Maes Eilian. Mae Mrs Williams wedi colli ei chwaer, Mair, oedd yn byw yn Lloegr. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad a chwi yn eich profedigaeth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Mae tymor y Gymdeithas bellach wedi dechrau a chawsom noson agoriadol lwyddiannus iawn. Agorwyd y tymor gyda chyngerdd o dan ofal parti Aria o Lanberis dan arweiniad Mr Gareth Jones; Mr Robert Wyn o Bontnewydd; Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol; a Mrs Olwen Bryn Hughes, Amlwch. Cawsom unawdau a deuawdau gan Robert ac Evan gydag Olwen wrth y piano. Y llywydd gwadd oedd Mr Irfon Williams, Yr Wyddgrug a braf oedd cael estyn croeso i Mrs Williams hefyd. Diolch arbennig i Irfon am ei haelion trwy gyfrannu rhodd sylweddol iawn i goffrau'r Gymdeithas. Arweinydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a thalwyd y diolchiadau gan Miss Marian Jones.

Ar y 5ed o Dachwedd croesawyd i'n plith y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon, pryd y cafwyd darlith ganddo ar 'Hiwmor'. Cawsom noson llawn o hiwmor ac ni chlywyd cymaint o chwerthin yma ers tro. Noson o fwyniant ydoedd a phawb wedi mwynhau eu hunain. Llywydd y noson oedd Mrs Katie Lloyd Hughes a thalwyd y diolchiadau gan Mr Tydfil Jones.

Erbyn y daw'r *Eco* o'r wasg fe fyddwn wedi croesawu i'n plith Mr Eric Gray Thomas, Caernarfon.

Dyma drefn cyfarfodydd y Gymdeithas am fis Rhagfyr —

Nos Fawrth, 2 Rhagfyr: Siân Wyn Gibson a Sharon Vaughan Williams ac artistiaid eraill

Nos Fercher, 16 Rhagfyr: Carolau gyda Seindorf Arian Deiniolen.

Bydd croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

DIOLCH. Dymuna Margaret Jane Jones, Y Foel ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd mwr a dderbynbiodd tra yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Bu'r ymweliadau cyson, y galwadau ffôn, y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn gymorth mawr iddi wella. Diolch hefyd am y gofal arbennig gan feddygon a gweinyddesau'r ysbytai.

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 24 Hydref yng Nghapel Soar, Talsarnau, priodwyd Glyn Tomos, mab Mrs Alice Thomas a'r diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig gyda Rhian Eluned o Dalsarnau. Gweinyddwyd y gwasanaeth priodas gan y Parchg John Glyn a'r Parchg Idris Thomas, a chynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Porthmeirion. Byddant yn cartrefu yn 7 Bryn Rhos, Rhosbodrual, Caernarfon.

Dymuna Glyn a Rhian ddiolch i bawb am eu anrhegion hael a'u cyfarchion ar yr achlysur hapus hwn.

DIOLCH yn fawr iawn am y nwyddau a dderbyniwyd at Apêl Honduras. Diolch hefyd am y cyfraniadau ariannol at yr Apêl, sef cyfanswm o £233. Derbyniwyd y nwyddau a'r arian yn Festri Ebeneser, Deiniolen, ddydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul, Tachwedd 13-15, a throsglwyddwyd y cyfan i Cymorth Cristnogol y dydd Llun canlynol.

O Ddinorwig i Sri Lanka

Annwyl ddarllenwyr,

Fy enw yw Joseph Anderson a chefais fy ngeni yn 1981 ym



Mangor ac rwyf wedi byw yn Ninorwig ar hyd fy oes. Ar hyn o bryd rwy'n y chweched uchaf yn Ysgol Brynrefail yn astudio Ffiseg, Cemeg a Mathemateg. Ar ôl gorffen fy lefel-uwch bwriadaf gymryd blwyddyn allan i wirfoddoli dramor cyn mynd i brifysgol.

Wedi i mi gymryd rhan mewn cwrs dewisiadol ar Ynys Coll yn yr Alban, cefais gynnig lleoliad gan yr Ymddiriedolaeth Prosiect *(Project Trust)* — elusen sy'n arbenigo mewn anfon gwirfoddolwyr ifanc dramor. Ers 1969 maen nhw wedi anfon dros 3,400 o bobl i dros 42 o wledydd y Trydydd Byd.

Cynigiwyd lleoliad i mi yn Sri Lanka (Ceylon gynt), gwlad sydd yr un maint â Phrydain, sydd wedi bod yn byw yng nghysgod rhyfel cartref ers canrifoedd. Lladdwyd dros 50,000 o bobl a gorfodwyd dros 1.1 miliwn arall i adael eu cartrefi a hynny o fewn y 30 mlynedd ddiwethaf.

Fy mhrif waith yn Sri Lanka fydd dysgu Saesneg iddynt a fydd yn rhoi cyfle i minnau ddefnyddio fy ngallu i helpu rhai llai ffodus na mi fy hun a hynny heb gymryd gwaith oddi ar y bobl leol. Mae safon byw yn sylfaenol iawn yno ond cynhwysa ddŵr a thrydan, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yno wedi'u hariannu'n wael ond mae'r bobl yn hael ac yn hynod garedig.

Cyfanswm y gost am flwyddyn dramor yw £3750. Mae'r Ymddiriedolaeth Prosiect yn codi £500 trwy ei hymdrechion ei hun gan adael targed o £3250 i bob gwirfoddolwr ei godi ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Byddaf yn cynnal Bore Coffi / Bore Prynu-a-rhoi yn yr Hen Ysgol yn Ninorwig am 10.30 a.m., 14 Rhagfyr, i geisio cyrraedd y nod ariannol ac fe fydd cyfle hefyd i'm noddi i wneud naid bynji.

Os oes gan unrhyw un gyfraniad (sieciau'n daladwy i *Project Trust*), neu os hoffai rhywun gael mwy o wybodaeth, fy nghyfeiriad yw Pen-yr-allt, Dinorwig a'r rhif ffôn: (01286) 872 367.

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Byddaf yn cynnal Bore Coffi / Bore Prynu-a-rhoi yn yr Hen Ysgol yn Ninorwig am 10.30 a.m., 14 Rhagfyr, i geisio cyrraedd y nod ariannol ac fe fydd cyfle hefyd i'm noddi i wneud naid bynji.

Os oes gan unrhyw un gyfraniad (sieciau'n daladwy i *Project Trust*), neu os hoffai rhywun gael mwy o wybodaeth, fy nghyfeiriad yw Pen-yr-allt, Dinorwig a'r rhif ffôn: (01286) 872 367.

CHWILOTA

O NEIGWL I LANDDEINIOLEN

Wrth bori drwy hen ewyllysiau yng Nghaernarfon yn ddiweddar, deuthum ar draws cofnod am wraig weddw o'r enw Gainor verch Thomas o Landdeiniolen. Mae ei hewyllys wedi ei dyddio ar y 29ain o Awst, 1687, ac fe'i profwyd bron i flwyddyn yn ddiweddarach ar y 25ain o Awst 1688. Dymuniad Gainor oedd cael ei chladdu ym mynwent Eglwys Llanddeiniolen. Yn yr ewyllys mae'n rhestru ei phernathau gan enwi ei phlant, ei wyrion a'i wyresau. Yr hyn a dynnodd fy sylw at yr ewyllys hon, yn hytrach na rhai eraill o'r un cyfnod, oedd y cyfenw anghyffredin ar ei phlant, sef Gunnis.

Doedd ond un ffynhonell i chwilio am yr eglurhad, sef cyfrol swmpus J. E. Griffiths, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families*. Perchnogion Gwynus, Pistyll, ger Nefyn oedd y teulu'n wreiddiol, ond i'r enw 'Gwynus' gael ei Seisnigio i 'Gunnis' dros bedair cenhedlaeth. Priododd Richard Gunnis â Gainor Thomas, ac yn ôl y *Pedigrees* bu iddynt chwech o blant. Mae'n amlwg iddynt fyw yn Neigwl, oherwydd ceir cofnod ohonynt yn talu'r dreth aelwyd yno. Bu Richard Gunnis farw yn 1673.

John Gunnis oedd y mab hynaf a bu'n rheithor Rhoscolyn ac yna Llanengan. Bu farw'n ifanc yn 1686. Mae Gainor yn cyfeirio ato yn ei hewyllys fel *'John Gunnis, son, deceased'*. Roedd Griffith Gunnis hefyd wedi marw cyn ei rieni, yn 1672. Ganed Robert Gunnis tua 1650 a graddiodd yng Ngholeg Merton, Rhydychen. Gadawodd arian i sefydlu elusennau ym mhlwyfi Llaniestyn, Llangian, Llanengan a Bryncroes.

Mab arall oedd Hugh Gunnis a oedd yn byw yn Llundain. Nid yw'r *Pedigrees* yn rhoi enw ei wraig, a Gaynor yw'r unig ferch a gofnodir. Oherwydd iddo farw'n ddi-ewyllys aeth ei holl stâd yn eiddo iddi hi. Mae ewyllys Gainor verch Thomas yn rhoi mwy o wybodaeth am Hugh a'i deulu. Elizabeth oedd enw ei wraig, ac enwir naw o blant iddynt; Gaynor, y ferch hynaf, yna Richard, Thomas, William, Griffith, Francis, John, Martha ac Elizabeth.

Roedd i Richard a Gainor verch Thomas ddwy o ferched: Jane, a briododd â Griffith Evans, a Catherine a briododd â David Rice. Mae'r *Pedigrees* yn enwi dwy o ferched i Jane a Griffith Evans, sef Jane a Gaynor. Mae ewyllys Gainor verch Thomas yn enwi'r holl blant, sef Jane, Gaynor, Andrew, Mary, Catherine a Rachel. Yn ôl y *Pedigrees*, roedd Catherine a David Rice yn byw yn Neigwl Ganol ac enwir pedwar o blant iddynt — Griffith, Jane, Richard a John. Mae ewyllys Gainor verch Thomas hefyd yn cyfeirio at David Rice fel mab yng nghyfraith, ond does dim cyfeiriad at Catherine. Tybed a oedd hithau wedi marw cyn ei mam? Pedwar o blant a enwir yn yr ewylly, ond nir yr un rhai â'r *Pedigrees*. Plant David Rice yn ôl yr ewyllys oedd Thomas, Griffith, Richard a Mary.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod y cysylltiadau teuluol i gyd yn ardal Neigwl, Penrhyn Llŷn, ond mae ewyllys Gainor verch Thomas yn awgrymu mai o Landdeiniolen y deuai'n wreiddiol. Tybed a oedd wedi dychwelyd yno i fyw ar ôl colli ei gŵr? Roedd yn weddol gefnog, oherwydd cyflogai ddwy o forynion a enwir yn ei hewyllys fel Margaret verch Evan a Jane verch Hugh Bowen. Ei dymuniad hefyd oedd cael ei chladdu yn Llanddeiniolen.

Bydd angen turio'n ddyfnach i hanes y teulu i ddarganfod beth yn union oedd y cysylltiad â Llanddeiniolen, neu efallai y gall rhai o ddarllenwyr *Llanw Llŷn* daflu goleuni ar y dirgelwch.

LLUNIAU O LANBERIS

Mae amryw wedi cysylltu yn awgrymu nad y Parchg John Pritchard oedd yn y ddau lun o'r

Mae olion yr hen dyddyn hwn rywle ym mro'r *Eco*, ond nid yw'n debygol fod neb wedi byw ynddo ers tua 1881. Gerllaw mae corlan y credir iddi gael ei hadeiladu er mwyn dal geifr gwyllt. Cewch fwy o hanes 'Corlan y Geifr' a thrigolion cyntaf yr hen dyddyn yn rhifyn nesaf o'r *Eco*.

Arddangosfa Genhadol a gyhoeddwyd fis diwethaf, ond yn hytrach y Parchg J. P. Davies a oedd ar y pryd yn weinidog Capel Coch, Llanberis. Cefais alwad ffôn gan Mr Emrys Owen (gynt o Lanberis) a enwodd un arall o'r cymeriadau yn y lluniau. Dywedodd mai'r diweddar William Owen, Llwyndu, Llanberis yw'r gŵr y tu cefn i Thomas John Roberts. Aeth yn ei flaen i gysylltu'r person hwnnw â llun arall a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco*. Dywed fod William Owen yn ewythr i Ifan Owen (cyn-gôlgeidwad Llanberis) sy'n un o'r bechgyn yn sglefrio ar y llyn. Cyfeiria hefyd at y llun o'r actor Robert Beatty, un o sêr y byd ffilmiau. Dywedodd mai'r gŵr yn gwisgo'r cap yw Tom Peris Roberts o Lanberis.

Ydi Emrys Owen yn gywir? Oes rhywrai all ychwanegu at y rhestr enwau?

MYNWENT LLANRUG

Anfonwyd y penillion canlynol gan Mrs M. Lewis, Llanrug. Nid yw'n gopi cyflawn gan fod ambell air neu linell yn eisiau. Ydi'r copi cyflawn ym meddiant rhywun o'r darllenwyr? Yr awdur yw Glan Rhyddallt:

Hen lannerch gysegredig
Yw poncan bach Bryn Llan;
Awelon gwynfydedig
Yn crwydro hyd y fan;
Cans yno gwywa blodau,
Prydfertha flodau'r fro;
Eneinir hwy â Blodau'r Plwy:
Rhai annwyl yn y gro.

Hen lannerch — y mae'r ywen werdd
Ers oesau'n gwylio'r fan;
Wrth fedd y tlawd di-lechen
Ac uwch y marmor drud;
Gan blygu'i phen yn wylaidd
O barch i'r sanctaidd fan
O'i brigau hi daw .....(?).....
O boncan bach Bryn Llan.

Anwylaf Ddu Eryri
Mae ef o dan y gist;
Lle huna Pen y Greuor
Ac Eos Gwynedd mwy;
Ar nos o haf hyd yno af
Gan gofio'u lleisiau hwy.

Hen eglwys fach Mihangel
Sydd draw a'i drws yn goch,
Mae lleoedd heddiw .....(?).....
Fu'n ufudd gynt i'w chloch;
Pa le mae'r llu amodau
Wnaed wrth ei hallor goed?
A llawer llw, pa le mae nhw?
Yn ddrylliau wrth ei throed.

Rhyw ddydd ceir finnau'n isel-
A marwol fydd fy rhan,
A chludir fi yn dawel
I boncan bach Bryn Llan;
Na chaner salm nac emyn
Cyn troi'r dywarchen werdd,
Gadewch y llwyn i'r fronfraith fwyn
I ganu galar gerdd.

Mae'r cyfeiriadau yn y trydydd pennill at Ddafydd Ddu Eryri, yr athro barddol sydd wedi'i galaddu yno. Cyfeiriad at ddau o gerddorion y fro sy'n dilyn — Pen y Greuor, sef cartref genedigol Eryr Eryri, arweinydd corau a bandiau pres; ac Eos Gwynedd, cantores ac athrawes sol-ffa o Gwm-y-glo.

GITSHE MANITA

Y mis diwethaf roedd Mrs G. M. Jones yn sôn am Basiant Cenhadol yng Nghaernarfon ac yn cofio pennaeth yr Indiaid Cochion mewn un o'r golygfeydd yn dweud y geiriau, *'Gitshe Manita'*. Doedd dim syniad ganddi ynglŷn â'u hystyr. Mewn sgwrs ar Sgwâr y Post yn Llanrug y daeth yr ateb: fod y geiriau yn golygu: *'Great Spirit'*, neu Dduw, a bod yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yng ngherdd Longfellow, *Hiawatha*.

CYSYLLTIADAU Â DE AFFRICA

Daeth peth gwybodaeth i law ynglŷn â chysylltiadau eraill o'r fro â De Affrica. Gobeithio y gallaf ddilyn y trywydd hwn a chyhoeddi mwy o'r hanes erbyn rhifyn cyntaf y flwyddyn newydd.

Yn y cyfamser, os oes unrhyw ymholiad neu wybodaeth gennych ar unrhyw agwedd o hanes lleol y fro, rhowch bin ar bapur, bys ar lygoden (os nad ydych yn deall, peidiwch â phoeni!) neu codwch y ffôn, a chysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (01286) 673515.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248–361044

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

T. ARFON WILLIAMS. Yn ddiweddar bu farw Arfon Williams, Y Wern, yn 63 mlwydd oed. Un o'r Rhondda ydoedd a deintydd wrth ei alwedigaeth. Daeth o a'r teulu i Gaeathro pan oedd yn arolygu safon deintyddiaeth yn y gogledd. Fel Cymro a bardd roedd o'n fwy enwog. Roedd lletygarwch i'r Annibynwyr yn y Wern yn enwog, a'r croeso i ymwelwyr o'r Wladfa. Bu'n drysorydd cyntaf Cymdeithas Barddas o 1976 ymlaen. Cyhoeddodd dri casgliad o farddoniaeth, sef *Englynion Arfon* (1978); *Annus Mirabilis a Cherddi Eraill* (1984); a *Cerddi Arfon* (1996). Dim ond ers 1973 y bu'n cynganeddu ac fe greodd math newydd o englyn, yr 'englyn Arfonaidd'. Cydymdeimlwn oll gyda'i wraig, Einir, a'r plant yn eu profedigaeth.

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD. Cynhaliwyd arolygiad yn ystod cyfnod y Pasg. Nodwyd bod 70% o blant y dalgylch — Caeathro, Bontnewydd a Llanfaglan — o gartrefi Cymraeg eu hiaith a bod 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Yn ôl yr Adroddiad mae gan yr ysgol lawer o gryfderau a chyflawna'r disgyblion safonau da yn y mwyafrif o bynciau gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y pynciau eraill — hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, dylunio a thechnoleg a chelf — roedd y safon hefyd yn dda. Mae yn yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae mwyafrif llethol y rhieni yn cefnogi'n frwd amcanion yr ysgol. Mae'r ymddygiad yn yr ysgol yn dda iawn ac yn cael effaith positif ar ansawdd y dysgu gyda'r disgyblion yn gymdeithasol a chwrtais gan fwynhau dod i'r ysgol ac mae'r presenoldeb yn dda. Lle mae gwendidau yn ansawdd yr addysgu maent yn cynnwys disgwyliadau a thasgau amhridol. Dywedir bod y pennaeth, Ms Eirian Pritchard yn gadarn ei harweiniad a chyfuna'r rôl reolaethol gyda rhaglen effeithiol o ddysgu yn ei meysydd arbenigol. Mae cynllunio ar gyfer datblygiad yr ysgol yn gynhwysfawr a thrylwyr. Mae'r bwrdd llywodraethwyr, o dan gadeiryddiaeth Dafydd Evans, yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Felly, gyda'r ganmoliaeth uchel gobeithio bod disgyblion a darpar-ddisgyblion Ysgol Gynradd Bontnewydd sy'n byw yng Nghaeathro a Rhos-bach a'u rhieni, yn gwerthfawrogi a chefnogi'r ysgol a'r cyfleon sydd ar gael a bod cefnogaeth gweddill y gymuned ar gael ar yr adegau priodol. Da iawn!

PEN-BLWYDD HAPUS. Yn ystod y mis dathlwyd pen-blwydd Margaret Roberts, 2 Caeathro Bach yn 90 oed. Hefyd bu Shaun Atkinson, Cefn Gof yn dathlu cyrraedd ei ddeugain oed.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu: Tachwedd
29: Parchg Gwynfor Williams (5.30)
Rhagfyr
6: Parchg W. R. Williams (2)
13: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)
20: Cyfarfod Nadolig (5.30)
27: Dim oedfa

CROESO I GAEATHRO. Trigolion newydd 11 Erw Wen yw Buddug a'r plant — Lowri sy'n ddisgybl yn Ysgol Bontnewydd a Dewi. Croeso cynnes i chwi i gyd.

PRIODASAU. Yn ystod yr haf fe briodwyd dau o hogiau ifanc y pentref. Capel Cysegr, Bethel oedd y man pwysig i Dylan Pritchard, Bryn y Gof ar gyfer ei briodas â Nia Elen Davies o Fethel. Capel Seilo, Caernarfon oedd lleoliad priodas Hefin Hughes â Tegwen Parry, Rhosbodrual. Roedd tad Tegwen, Wil, yn ddisgybl yn hen ysgol gynradd Caeathro. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i'r hogiau a'u gwragedd newydd. Rydan ni'n sicr y byddant yn cofio eu gwreiddiau yma yng Nghaeathro.

PRIODAS AUR. Ar begwn arall bywyd priodasol, fe ddathlodd Bobby a Jini Owen, 1 Erw Wen eu Priodas Aur ar 30 Hydref. Edrychwn ymlaen yn awr i gofnodi'r Priodas Platinwm nesaf!

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas nos Lun, 16 Tachwedd. Hysbyswyd am y cyfarfod a dangoswyd y fantolen ariannol ymlaen llaw ar hysbysfwrdd y pentref. Derbyniwyd y fantolen gan yr un ar ddeg a oedd yn bresennol. Etholwyd y swyddogion canlynol — Cadeirydd: Clive James; Trysorydd: Wally Evans; Ysgrifennydd: Alun Roberts. Etholwyd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor: Richard Jones, Dafydd Jones, Huw Ceiriog, Wyn Jones, Peris Thomas, Shaun Atkinson, Wendy Thomas, Eryl Jones, Norman Hughes a Steve Rees. Bu cryn drafodaeth ynglŷn â statws gyfreithiol yr ymddiriedolwyr. Yn groes i'r gred gyffredinol nid yw'r rhai sy'n dal swyddi yng ngweithgareddau'r cae chwarae yn ymddiredolwyr yn awtomatig. Gan fod yr ymddiriedolwr diwethaf, Mr Richard Rawson, wedi marw mae'r pwyllgor yn ceisio cael awdurod i benodi ymddiriedolwyr newydd. Penderfynwyd gofyn i'r Parchg W. R. Williams, y Parchg R. F. Donaldson, Mr Robert owen a Mr Albert Jones dderbyn y swydd fel ymddiriedolwyr pan ddaw y cyfle. Derbyniwyd y cynnig gan y tri. Hefyd, er mwyn derbyn prydles gan Gyngor Gwynedd ar y man chwarae i'r plant iau gyferbyn â Tai Brynteg, cytunwyd penodi yr un pedwar person i weithredu fel ymddiriedolwyr ar ôl creu gweithred o ymddiried.

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Tachwedd oedd: £40 Wendy Thomas, 4 Bryn y Gof (55); £25 Guto a Nansi Jones, Tremallt (27); £15 Brian Hayes, Glangwna (77); £5 Heulwen Atkinson, Carreg Llwyd (82).

LLONGYFARCHIADAU i Harriet a Roy Roberts, Sea View ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd merch i Berwyn a'i briod.

CAIS GAN DREFNYDD BWNDELU YR ECO. Buaswn yn ddiolchgar pe byddai rhywun o'r pentref yn fodlon casglu bwndel Caeathro o'r man plygu bob mis, os gwelwch yn dda. Gyda diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

APÊL HONDURAS

Diolch yn fawr iawn i bawb yn nghylch Dinorwig, Deiniolen, Llanberis a Nant Peris a gyfrannodd tuag at Apêl Honduras a Nicaragua Cymorth Cristnogol ddydd Sadwrn a dydd Sul, Tachwedd 13-14. Achoswyd difrod a dioddefaint aruthrol gan y corwyntoedd a 'sgubodd trwy'r gwledydd hynny. Yr oedd Cymorth Cristnogol wedi cael defnydd llong i gario nwyddau i Honduras ac yr oedd brys mawr i gasglu bwydydd a blancedi i lenwi'r llong. Cafwyd ymateb hael dros ben mewn pentrefi a threfi trwy Gymru.

Derbyniwyd nwyddau yn festrïoedd Nant Padarn, Llanberis ac Ebeneser, Deiniolen. Diolch yn fawr i bawb a alwodd heibio gyda nwyddau neu arian. Mewn deuddydd cafwyd pentwr o fwyd a blancedi a derbyniwyd cyfanswm o £796 (£233 Deiniolen a £563 Llanberis).

Yr oedd y llong yn hwylio o Southampton ganol yr wythnos ddilynol. Diolch i bawb am eu haelioni ac i bawb a fu'n helpu i dderbyn a phacio'r nwyddau, ac am gael defnyddio'r festrïoedd. Carewn ddiolch yn arbennig i Mr Bert Parry, Llanberis a gafodd y syniad o drefnu'r casgliad yn lleol ac i J. M. Jones, Llanrug am roi fan i gario'r nwyddau i Fangor.

JOHN PRITCHARD

ADFYWIO BRO

Mae hi wedi bod yn fis llawn syniadau gydag aml brosiect newydd yn codi ym Mro Gwyrfai, megis cynlluniau gwella'r amgylchedd lleol yn ogystal â phrosiect hanesyddol ei naws yn cael sylw. Hefyd mae Arolwg Bro Waunfawr a Chaeathro yn dod yn ei flaen a gobeithir gallu defnyddio'r ystadegau a gasglwyd yn fuan y flwyddyn nesaf.

Erbyn hyn mae Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai, yn cael nifer o ymholiadau ynglŷn â datblygu cynlluniau cymunedol neu geisio darganfod y pot arian holl bwysig 'na ar gyfer gwireddu syniadau! Ydych chi'n awyddus i fod yn rhan o fwrlwm adfywio Bro Gwyrfai? Os felly bydd Eirian yn fwy na pharod i gael sgwrs â chi ar (01286) 650 779 neu galwch i'w gweld yn ei swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr a chofiwch wneud y mwyaf o'r gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

DRAENOG

Mae rheithor ym mro'r Eco wedi dechrau bugeilio praidd pedair coes. Aeth un o'r defaid crwydrol i mewn i'r Rheithordy yn reit barchus ond fe ddaeth allan trwy'r ffenest — heb ei hagor — wrth i'r rheithor geisio'i hel allan.

Trin Traed Gwartheg

'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.
Ar gyfer buwch neu darw
Hefyd:
Ymgymerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts
Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143

NADOLIG YN YR ANTUR

Siôn Corn yn Antur Waunfawr dydd Sadwrn, 12 a 19 Rhagfyr
1.00 - 4.00 y pnawn

COFIWCH! Mae'n amser archebu eich coeden Nadolig, torchau, pwdin neu gacen 'Dolig

(01286) 650 721

ANTUR WAUNFAWR

SWYDDFA'R POST A SIOP

CLWT Y BONT

Ffôn: 870325

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
JAVED A SHAHEEN HAQ

DYMUNA DAFYDD A STAFF

Y TARW

(BULL INN)

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'N CWSMERIAID A'N CYFEILLION OLL

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll
oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

ESSO BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth
BILL, LIZ a FIONA

SWYDDFA'R POST DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870283

GROSER TRWYDDEDIG

ASIANT LOTERI CENEDLAETHOL

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Y GAMPFA

CANOLFAN IECHYD A FFITRWYDD
(Perchennog: D. M. A. Lee)

DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 872 240

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Chris ac Angela
a'r staff

WELLINGTON INN

Deiniolen
Ffôn (01286) 870227

CWRW BLASUS
CHWERW AR EI ORAU

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Stuart Hungate

CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073

AR FIN AGOR — YN Y FLWYDDYN NEWYDD
HOLWCH AM FANYLION

CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Bar Swper Arfonia

DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870048

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

AR AGOR
Llun-Gwener 8.30am-10pm
Sdawrn 9am-10pm
Sul 10am-9pm

SIOP SPAR

Stryd Newydd
DEINIOLEN
Ffôn: 870171

Diolch am bob cefnogaeth
drwy gydol y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
Edgar a'r holl staff

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

Plant Ysgol Gwaun Gynfi yn eu pyjamas ddiwrnod Plant Mewn Angen.

DIOLCH yn fawr iawn am y nwyddau a dderbyniwyd at Apêl Honduras. Diolch hefyd am y cyfraniadau ariannol, sef cyfanswm o £233. Derbyniwyd y nwyddau a'r arian yn festri Ebeneser ddydd Gwener, Sadwrn a Sul, 13-15 Tachwedd, a throsglwyddwyd y cyfan i Cymorth Cristnogol y dydd Llun canlynol.

EBENESER A CHEFNYWAUN. Cafwyd cwmni gweinidog o ogledd-ddwyrain India yn Ebeneser ddydd Iau, Tachwedd 5. Mae'r Parchg Hmar Sangkhuma wedi dod i Gymru am ddwy flynedd i weithio fel Ysgogydd Cenhadol gydag Undeb yr Annibynwyr. Roedd yn ymweld ag eglwysi'r gogledd yn ystod yr wythnos. Cafwyd cyfarfod ar gyfer diaconiaid a blaenoriaid yn y bore a daeth nifer dda i wrando arno'n annerch ac i drafod ag ef. Diolch am gefnogaeth aelodau o eglwysi eraill y fro i'r cyfarfod hwn. Yn y prynhawn bu'r Parchg Sangkhuma yn annerch cyfarfod chwiorydd y ddwy eglwys. Roedd yn werth ei glywed yn sôn am ei eglwys gartref, lle roedd 2,000 o bobl yn y gynulleidfa, heb sôn a oddeutu 800 o blant yn yr Ysgol Sul. Edrychwn ymlaen at ei groesawu atom eto.

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas y Chwiorydd yn festri Ebeneser, brynhawn Iau, Rhagfyr 17, am 2 o'r gloch, pan gynhelir gwasanaeth o ddarlleniadau Nadolig.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul Unedig yn Ebeneser am 10 o'r gloch, ddydd Sul, Rhagfyr 20, a bydd Oedfa Nadolig yng Nghefnywaun am 5 o'r gloch y noson honno.

CYNGOR EGLWYSI. Croesawyd Mr John H. Hughes, Llanberis i'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghefnywaun, nos Lun, Tachwedd 9. Llywyddwyd gan Miss Jean Parc Jones a chafwyd sgwrs gan Mr Hughes ar arferion y Nadolig a'r Grawys.

Bydd y Cyngor Eglwysi yn uno i ddathlu'r Nadolig yn Eglwys Llandinorwig mewn dwy oedfa eleni. Fore'r Nadolig bydd gwasanaeth Cymun am 9 o'r gloch; a nos Sul, Rhagfyr 27, ceir Gwasanaeth Goleuni.

PLAID CYMRU. Cynhelir **Ffair Nadolig** yn y Ganolfan nos Wener, Rhagfyr 4ydd am 7 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yn galw heibio ar ei ymweliad blynyddol.

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 26 Medi, priodwyd Janet Meinir Jane, Pencaeau, Glynarthen ag Euryn Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen yn Eglwys St. Ioan, Betws Ifan, Llandysul. Maent wedi ymgartrefu yn Finsbury Park, Llundain. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH. Cymuna Euryn a Janet ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Lun, Hydref 19, yn y Ganolfan. Cawsom gwmni Jenny Vaughan Owen, Treorci. Magwyd Jenny yn Ninorwig ac yn Gallt-y-foel, a braf iawn oedd cael ei chwmni. Anfonwyd ein cofion at ei modryb, Margaret Jane Jones, Y Foel, Dinorwig a dymunwyd gwellhad buan iddi.

Mae Jenny yn gweithio yng Nghaerdydd ym myd Adweitheg (Reflexology) a buan iawn y dangosodd inni ei bod yn feistres ar ei phwnc. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac adeiladol iawn ganddi a bu'n arddangos ei chrefft wrth drin traed un o'r aelodau! Diolchwyd yn gynnes iddi gan Buddug Jones. Gwnaed y baned gan Megan Morris, Alice Griffith ac E. Wyn Jones.

DYWEDDÏAD. Llongyfarchiadau i Dylan Wyn, mab Owen a Rhian Jones, Dulas, 4 Stryd Fawr, a Llinos, merch Mr a Mrs S. Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch oddi wrth y ddau deulu.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Linda a Gwyndaf gynt o 5 Rhydfadog, ond yn awr yn byw yn Llangefni, ar enedigath eu merch fach, Gwen Môn, chwaer i Gwion ac wyres i Buddug a Barry Thomas, 5 Rhydfadog, a gor-wyres i Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mr Hugh Vaughan Evans, Bron Eryri, Llanberis (Clwt-y-bont gynt) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 94 oed ar 5 Hydref.

DIOLCHIADAU. Dymuna Linda a GWyndaf o Langefni, gynt o Ddeiniolen, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach Gwen Môn.

Dymuna Mr Vaughan Evans, Bron Eryri, Llanberis (Clwt-y-bont gynt), ddiolch i'w deulu, ffrindiau a staff Bron Eryri am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 94 oed ym mis Hydref.

TENDR I DORRI GWAIR

Gwahoddir tendrau am dorri gwair ym mynwent Eglwys Crist, Deiniolen (Plwyf Llandinorwig) am y flwyddyn 1999. Gellir cael manylion am y gwaith gan y Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug, neu Mr Brian Price, 14 Hafod Olau, Deiniolen.

DYDDIADUR
YSGOL GWAUN GYNFI

Helfa Drysor. Ar 18fed o Fedi cynhaliwyd Helfa Drysor i'r plant o gwmpas y pentref gan orffen gyda disgo yn neuadd yr Ysgol. Cafwyd noson gwerth chweil gyda'r enillwyr yn derbyn medalau. Cafwyd Helfa Drysor hefyd i rieni a staff ar 25ain o Fedi. Roedd hon eto'n noson dda iawn. Yr enillwyr oedd Eifion Hughes a'r teulu, Rhes y Faenol, a hwy fydd yn trefnu'r Helfa Drysor nesaf.

Yr Urdd. Dechreuwyd adran o'r Urdd yn yr ysgol gyda'r athrawon a rhieni yn trefnu digwyddiadau i'r plant. Bydd yr Adran yn cyfarfod bob yn ail ddydd Mawrth o 3.30-4.30 p.m. ac rydym eisoes wedi mwynhau dau sesiwn, un o gemau ac un o ddawnsio gwerin. Cynhelir parti Nadolig aelodau'r Urdd ar Ragfyr 8.

Diolchgarwch. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol ar 16 Hydref. Daeth y plant a llysiau a ffrwythau i'r Ysgol a'u gosod ar fwrdd yn y neuadd. Rhoddwyd y cynnyrch i henoed y pentref.

Eisteddfod Gwaun Gynfi. Bu'r plant a'r staff yn brysur iawn eto eleni yn cymryd rhan a chynorthwyo yn yr Eisteddfod.

Canolfan Iechyd. Galwodd fan y Ganolfan Iechyd yma ar 16, 17 a 18fed o Fedi a chafodd holl blant yr Ysgol, athrawon a rhieni, gyfle i drafod gwahanol agweddau ar fyw yn iach gyda Mr Lawrence Smith.

Profiad Gwaith. Yn ddiweddar bu tri o blant ysgol uwchradd gyda ni am wythnos ac mae gennym ddwy o enethod lleol gyda ni un diwrnod yr wythnos tan y Nadolig o Goleg Menai.

Mae dau o fyfyrwyr gyda ni ar hyn o byd a bydd Arolygwyr ei Mawrhydi yn galw i arolygu'r ffordd yr ydym yn eu mentora yn ystod wythnos Tachwedd 23-27.

Bydd Alaw, Lyn a Jenny, genod dosbarth 6 Ysgol Brynrefail, ac yn byw yn Neiniolen yn dod atom yn ystod yr wythnos i gynorthwyo gyda gwaith trafod a darllen gyda'r plant.

Ffair Lyfrau. Cynhelir Ffair Lyfrau yn yr Ysgol yn ystod wythnos Tachwedd 23-27. Bydd pob dosbarth yn cael amser i edrych a phrynu llyfrau a bydd cyfle hefyd i rieni weld y llyfrau ar nos Fawrth, 24 Tachwedd, rhwng 3 a 4 o'r gloch.

Cyffuriau. Bu Mr Ian Williams o'r Uned Hybu Iechyd yn yr Ysgol ar 5 Tachwedd i gael sgwrs gyda'r plant ynglŷn â pheryglon cyffuriau.

Mae noson wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ar gyfer y rhieni a'r llywodraethwyr ar 24 Tachwedd am 7 o'r gloch. Pwrpas y noson yw addysgu rhieni am y mathau o gyffuriau sydd ar gael a sut i adnabod yr arwyddion o gam-ddefnyddio cyffuriau.

Tripiau. Aeth dosbarth Miss E. Jones (Bl. 5 a 6) i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ar 12 Tachwedd. Cafwyd bore difyr iawn yno gyda'r plant yn cymryd rhan mewn drama yn seiliedig ar oes y chwarel.

Gwasanaeth Nadolig. Mae'r gwasanaeth Nadolig eleni yn cael ei gynnal ar 10 Rhagfyr am 2 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser.

Rhagor o blant Gwaun Gynfi efo'r bosus at Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Deiniolen
Llanberis 870484

★ Bysus o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth
Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd
Dda
oddi wrth pawb yn
Menter Fachwen
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol 1998 ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall lwyddiannus yn 1999

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

LONDON GARAGE

FIAT FIAT **CWM-Y-GLO** FIAT FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT

GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

OAK AM BETROL, DEISEL OLEW AC AMRYFAL ANRHEGION MODURO **OAK**

GORSAF BETROL LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 872046
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Dymuna
HOWARD ac ELAINE MIDDLETON
a staff

Y FRICSAN
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870289

THE SNOWDON INN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
DEWCH AM GROESO CYNNES BOB AMSER

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Terry, Bryn, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

CYDYMDEIMLAD. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 19eg o Hydref bu farw Mr David Samuel Jones (Sam Plastrwr), Bron Eryri, yn 61 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dysaf i'w briod Rhian, y plant Islwyn a Medi, ei wyrion a'i wyresau; hefyd ei fam yng nghyfraith Mrs Nellie M. Owen, yn eu profedigaeth a'u galar.

DIOLCH. Dymuna Terry, Bryn ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Hafan Elan, nos lau, Tachwedd 12. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Sandra Hughes a Mrs Enid Taylor. Cafwyd adroddiad gan Mrs Dorothy Jones am yr cyfarfodydd drwy'r flwyddyn. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Joyce Ransom. Diolchwyd iddynt gan Mrs Jones ac i'r swyddogion i gyd am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Cytunodd y swyddogion i wneud eu gwaith am flwyddyn arall — Swyddog Cofrestru: Mrs Dorothy Jones; Trysorydd: Mrs J. Ransom; Ysgrifennydd: Mrs Ll. Orritt; Gofalu am y gwael: Mrs Enid Taylor a Miss Meira Williams. Bydd pwyllgor Cyngor y Ddeoniaeth yn cyfarfod ym Mangor ar yr 2il o Ragfyr. Cynhelir Gwasanaeth o Garolau yn Eglwys Sant Padarn ar y 1af o Ragfyr pryd y bydd y gangen yn ymuno â changen Llanberis. Cynhelir Gwasanaeth a Charolau yn Hafan Elan, Llanrug, nos lau, 10fed Rhagfyr. Bydd croeso cynnes i bawb yn Hafan Elan.

Paratowyd rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL



ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

CEIR CWM

CWM Y GLO, Ffôn: 871234
Ar agor: Llun — Sadwrn, 10.00 - 5.30
Sul, 1.00 - 5.00
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Margaret Latham a Mrs Kath Jones a diolchwyd iddynt gan Miss Meira Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Marjorie Roberts. Doedd dim arall i'w drafod a therfynwyd gyda gweddi.

CYMDEITHAS RHIENI/ATHRAWON Croeso cynnes i bawb i noson o ganu carolau yn Ysgol Cwm-y-glo, Rhagfyr 15fed yng nghwmni Seindorf Llanrug. Pris mynediad fydd £1 i oedolion a 50c i blant sy'n cynnwys paned a mins pei.

Ar ran y Gymdeithas dymunwn ddiolch am gefnogaeth pawb drwy'r flwyddyn a dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chwi oll.

EGLWYS SANT GABREAL. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 18fed o Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein rheithor, y Parchedig Philip Hughes. Darllenodd Mrs Dorothy Jones y llith gyntaf o'r Hen Destament a diolchwn iddi am ei gwasanaeth. Nos Sul bu pregeth a gosber a'r wraig wadd oedd y Parchg Dilys Myfanwy Davies o Waunfawr. Yr organyddes oedd Mrs Susan Williams, Ceunant, a darllenwyd y llith gyntaf gan Mrs Gwyneth Roberts, a diolchwn i'r ddwy am eu gwasanaeth.

Dymuna'r rheithor, y Parchg Philip Hughes, a'r wardeiniaid ddiolch i bawb am addurno'r eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd yn ystod yr Ŵyl Ddiolchgarwch.

NOSON GOFFI. Cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned nos Fawrth, Hydref 20fed, a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabreal. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben a diolch yn fawr i bawb am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion i'r raffl. Diolch i bawb am droi allan ar noson mor wyntog. Enillwyr y raffl fawr oedd: 1, Mrs Myra Jones, 39 Maes Barcer, Caernarfon; 2, Mrs Williams, 40 Stryd Fawr, Caernarfon; 3, Mr Richard Humphreys, Oriel Cwm-y-glo; 4, Mrs Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel; 5, Mr B. Vise, Cefn Rhos, Bethel; 6, 45 Maes Barcer, Caernarfon; 7, Carwyn Jones, 24 Dôl Afon, Cwm-y-glo; 8, Siop Lorna, Caernarfon; 9, Mrs G. Thomas, 25 Nant-y-glyn, Llanrug; 10, Mrs Williams, 62 Maes Gwynedd, Caernarfon; 11, Mr Simon Higgins, Menter Fachwen; 12, Mrs Ann Ettinge, 3 Craig-y-don, Cwm-y-glo; 13, Mrs Margaret Williams, Goleufryn, Cwm-y-glo; 15, Mrs Sandrine Berho, d/o Ysgol Brynrefail; 16, Mrs Cathy Bell, Tŷ Newydd, Saron, Bethel; 17, Mr Roberts, Prenteg, Ffordd Cwellyn, Caernarfon; 18, Mrs Evans, 15 Stryd Fawr, Llanberis; 19, Mr Holdsworth, 16 Afon Rhos, Llanrug; 20, Mrs E.Williams, 14 Cwm Silyn, Caernarfon; 21, Mrs Diane Roberts, 22 Dôl Afon, Cwm-y-glo; 22, Mrs Fowler, Bodlondeb, Cwm-y-glo; 23, Mr J. O. Roberts, Ty'n y Ffridd, 'Rallt Goch, Cwm-y-glo; 24, Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon, Cwm-y-glo; 25, Mrs Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug; 26, Mrs Siân Roberts, Awel-y-grug, Chwilog; 27, Mrs Lynne Peters, Cae Mur, Caernarfon; 28, Mr D. Morgan, 54 Caer Saint, Caernarfon; 29, Mrs Hughes, 31 Bro Rhos, Bethel; 30, Mr Dewi Ellis, 12 Field Terrace, Llanberis; 31, Mrs Griffiths, Tan-y-fron, Llanrug; 32, Glyn Afon Hotel, Llanberis; 33, Mrs Mair Jones, 1 Maes Gwynedd, Caernarfon; 34, Mrs J. Roberts, d/o Ysgol Gymuned Cwm-y-glo; 35, Delyth Roberts, d/o Bod Gwynedd, Cwm-y-glo; 36, Brenda Bee/Chic, Neuadd y Farchnad, Caernarfon; 37, Siop DIY, Caernarfon; 38, Mrs M. P. Jones, 3 Llys Gwyn, Caernarfon; 39, Mr M. L. Williams, 22 Lôn Arfon, Caernarfon; 40, Eifion JCB, Pontrug.

Enillwyr y raffl ar wahân oedd: Mrs Enid Taylor, Llanrug; Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo; Anest Jones, Glan-y-don, Cwm-y-glo; Mrs Eleanor Hughes, 11 Dôl Afon, Cwm-y-glo.

NEWYDDION O'R YSGOL. Carem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael i'r casgliad anrhydeddus o £140 tuag at fudiad yr NSPCC.

Croeso i Hywel Aaron sydd wedi ymuno â'r dosbarth Meithrin ac wedi setlo yn dda iawn gyda'i ffrindiau bach newydd.

Rydym yn falch o groesawu Miss Rhian Davies o Goleg Menai atom y tymor hwn. Bydd Rhian yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos yn nosbarth y Babanod.

Diolch hefyd i Miss Awen Humphreys o Lanrug am ei gwaith gyda'r plant tra bu yma am bythefnos o brofiad gwaith. Mae hithau yn dilyn cwrs yng Ngholeg Menai a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Cawsom, unwaith eto, gyfle i groesawu Robert a Gwen Jones o Britannia Stores, Porthmadog. Roedd Mr Jones yn dathlu ei ben-blwydd yn 83 mlwydd oed y diwrnod hwnnw a chyflwynwyd anrheg iddo a blodau i Mrs Jones. Cyflwynodd atgofion difyr am ei blentyndod yng Nghwm-y-glo ac yna aeth ymlaen i sôn am ei ddyddiau ar y môr gan gofio llawer iawn o fanylion am y gwahanol fordeithiau. Rhoddodd ddarn arian jiwbili'r frenhines i bob plentyn ynghyd â stampiau dathlu Cwpan y Byd yn 1966. Diolch Mr Jones am ddod y tocynnau ar werth ddechrau mis atom ac am eich caredigrwydd arferol.

Llongyfarchiadau i Miss Myfanwy Roberts, Bod Gwilym a Mrs Siân Jones, Dolafon ar ennill gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Hydref.

Mae cyfnod prysur o'n blaenau rhwng nawr a diwedd y tymor. Cynhelir ein cyngerdd Nadolig nos Iau, Rhagfyr 10. Bydd Rhagfyr.

Ni fyddwn yn mynd o gwmpas y pentref yn canu carolau eleni. Yn hytrach, mae'r Gymdeithas Rhieni / Athrawon wedi trefnu noson o garolau, paned a mins peis yn yr ysgol yng nghwmni Seindor Arian Llanrug a grŵp o ferched ifanc o Lanberis. Tâl mynediad fydd £1 i oedolion a 50c i blant. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

Gweithgareddau cyfnod y Nadolig

Tachwedd 28 a 29
FFAIR GAEAF

Dechreuwch yr Ŵyl gyda gwledd o weithgareddau yn Ffair Gaeaf Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis. Mae rhywbeth i bawb yma gan gynnwys paentio wynebau, castell bownsio, sioe bypedau, bandiau pres, dawnsio, ac i goroni'r cwbwl, Siôn Corn gydag anrheg i bob plentyn.

Tachwedd 28 — Rhagfyr 11
10% O DDISGOWNT
AR NWYDDAU'R SIOP

Blodyn haearn? Powlen lechen? Bwydydd Cymreig traddodiadol? Os ydych yn chwilio am anrheg arbennig i'ch modryb Maud galwch yn Amgueddfa Lechi Cymru gan ei bod yn llawn o nwyddau unigryw a phrydferth. Rydych yn siŵr o weld rhywbeth arbennig yn ein siop a chyda disgownt o 10% fedrwch chi ddim peidio â phrynu!

Rhagfyr 9 am 7.30 o'r gloch
CAWL A CHÂN
gyda HOGIA'R WYDDFA
ac ARIA

Dewch i glywed yr hogia yn canu rhai o'u caneuon mwyaf poblogaidd ynghyd â chriw o enethod ifanc Llanberis sydd wedi ffurfio grŵp o'r enw Aria yn ddiweddar. Mae'r tocyn (£2 ymlaen llaw drwy ffonio Julie, neu £2.50 wrth y drws) yn cynnwys yr adloniant a phowlenaid o gawl o Gaffi'r Ffowntan. Bydd siop yr Amgueddfa ar agor ac yn cynnig disgownt o 10% ar eu nwyddau.

Rhagfyr 7 — Ionawr 4, 1999
ARDDANGOSFA NADOLIG Y PLANT
gan YSGOL CWM-Y-GLO

Digwyddiad blynyddol poblogaidd. Mae'r arddangosfa yma yn gosod naws y Nadolig gyda thoreth o ddelweddau Nadoligaidd.

DANTEITHION CARTREF . . .
MINS PEIS A BARA BRITH

Os am ddanteithion cartref blasus dewch i brynu mins peis a bara brith o Gaffi'r Ffowntan.

Y FLWYDDYN NEWYDD
Y GAEAF AGORED . . .

Gormod o dwrci? Dewch am dro o gwmpas Parc Padarn ac ymwelwch â'r Amgueddfa. **Byddwn ar agor ddydd Calan.**

ORIAU AGOR
DROS GYFNOD Y NADOLIG
Sul - Gwener: 10 a.m. - 4 p.m.
Ar gau 24, 25 a 26 Rhagfyr
AR AGOR DYDD CALAN

Mr Robert Jones a Mrs Gwen Jones gyda rhai o blant hynaf yr Ysgol. Roedd y plant yn falch o weld y ddau yn ymweld â'r Ysgol unwaith eto eleni.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Tachwedd 17 yn festri'r Cysegr cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Gwilym Owen, Bangor. Cafwyd hanesion a phortreadau difyr o'r cymeriadau oedd Mr Owen wedi dod i gysylltiad â hwy o'i blentyndod yn Llanerch-y-medd a thrwy ei yrfa yn y gwasanaeth ieuenctid ac yn y cyfryngau. Diolchwyd i Mr Owen gan y Parchg W. R. Williams.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Hydref oedd: £20 Jean Williams, Pen Lôn (2); £10 Margaret Williams, Cefn Isaf (133); £5 yr un i Mary Evans, Sŵyn Eryri (79); Gwenan Roberts, Stad Eryri (135); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (127); Medwen Green, Medfyn, Corra Lin (188); Sam Davies, Hafan Deg (138); Gwilym Jones, Y Ddolwen (13); Gwynfor Ellis, 5 Rhos-lan (74); Gareth Jones, Llys Elen, Tre'r Gof (224).

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen yn yr ysgol nos Fercher, Tachwedd 11. Croesawyd pawb gan y llywydd, Mrs Anne Elis, a dymunodd wellhad buan i Mrs Mair Jones, Cilan, Tan-y-cae.

Casglwyd £25 yn ystod y cyfarfod fel cyfraniad i barti Nadolig Ysgol Pendalar sydd yn cael ei drefnu gan ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail. Cynhelir noson dathlu'r Nadolig yng Nghapel Cysegr ddydd Sul, Rhagfyr 13, pan fydd plant yr Ysgol Gynradd ac aelodau o'r Ferched y Wawr Bethel yn cymryd rhan. Y tocynnau ar gael gan yr aelodau.

Cafwyd noson ddiddorol a chartrefol o Frethyn Cartref gyda thair o aelodau yn cymryd rhan — Mrs Nora Parry yn dangos rhai o'r tebotiau y mae wedi eu casglu; Mrs Margaret Williams yn trafod gwahanol grefftau llaw; a Mrs Bet Owen yn dangos fideo ac yn sôn am daith gerdded ar hyd arfordir Sir Benfro. Diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Read. Darparwyd y te gan Mrs Gwen Hughes, Mrs Eryl Roberts a Mrs Eirlys Sharpe. Enillydd y raffl oedd Mrs Sheila Roberts.

Bydd y cinio Nadolig yng Ngwesty Victoria, Porthaethwy ar Ragfyr 9. Y bws i gychwyn o Benrhos am 7 o'r gloch.

CYDYMDEIMLO. Dydd Sadwrn, Tachwedd 14, wedi cystudd blin bu farw Mrs Mona Williams, 9 Bro Rhos, dim ond ychydig fisoedd ar ôl Dafydd. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN 1999

YN EISIAU

PERSON/AU I WEITHIO AR FAES YR EISTEDDFOD YN LLANBEDRGOCH YN YSTOD MISOEDD MAI, MEHEFIN, GORFFENNAF AC AWST 1999

Byddai gwybodaeth neu ddiddordeb yn y maes perianyddol/pensaernïol yn fantais.

Cysyllter ag

Alan Gwynant
Swyddog Technegol
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
40 Parc Tŷ Glas
Llanishen, Caerdydd CF4 5WU
Ffôn: (01222) 673777

BRYSIWCH!

Archebwch eich TWRCI NADOLIG a'ch CYW IÂR a CHIGOEDD ERAILL RŴAN

oddi wrth

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Trefnir Ffair Nadolig gan y Cyfeillion, nos Iau, **Rhagfyr 12** am 6.30 p.m., yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir noson anffurfiol o garolau a mins peis ar y cyd â'r Cyfeillion yn y Neuadd, nos Lun, **Rhagfyr 14** a'r amser i'w gadarnhau. Dydd Gwener, **Rhagfyr 11** bydd cyfle i'r plant fwynhau cinio Nadolig. Mae croeso i'r plant sy'n arfer dod a brechdanau i ymuno am £1.20. Dydd Iau, **Rhagfyr 17** mae'r Cyfeillion wedi trefu i gonsuriwr ddod i ddiddannu'r plant am 9.30 a.m. a thelir y costau gan y Cyfeillion. Mae cyfle hefyd i'r plant fynd i weld 'Rasus Cymylau' yn Theatr Gwynedd fore Gwener, **Rhagfyr 18**. Diolchir eto i'r Cyfeillion am dalu am y cludiant. Bydd yr Ysgol yn cau 18 Rhagfyr ac yn ail agor ddydd Mawrth, 5 Ionawr 1999.

Yr Urdd. Tachwedd 3ydd daeth nifer fawr i'r cyfarfod cyntaf yn y Neuadd Gymuned a chafwyd gêm o bingo gydag Anti Liz yn galw a diolchwyd iddi gan Osian Wyn. Tachwedd 10fed bu'r aelodau yn cadw'n heini hefo Anti Jean a diolchodd Anest Eifion iddi am noson fywiog a hwyliog. Tachwedd 17eg mwynhawyd Cwis yr Urdd gydag Anti Delyth a lolo a ddiolchodd. Tachwedd 24 cafwyd gemau amrywiol gyda Mark Porter.

Gweithgareddau mis Rhagfyr fydd noson yng ngofal Miss Jên Jones; gwaith llaw hefo Rhian Roberts, Pen-y-groes; ac yna i orffen y tymor, disgo a pharti ar Rhagfyr 15fed.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant **fore Sul, Rhagfyr 20fed,** am 10 o'r gloch y bore. Croeso cynnes i chwi oll.

PARTI NADOLIG. Bydd parti Nadolig ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Eglwys y Santes Helen, ddydd Llun, Rhagfyr 21ain o 3 hyd 5 o'r gloch. Byddwn yn falch iawn o unrhyw gyfraniad. Rydym wedi gofyn i Siôn Corn alw heibio.

NOSON GOFFI. Dymuna pawb a drefnodd y noson goffi, ar gyfer cinio i'r henoed, ddiolch i chwi oll am eich haelioni. Gwnaed elw o £150. Diolch hefyd i aelodau Ysgol Sul Bosra am eu rhodd hwythau o £30 yn dilyn eu gwasanaeth Diolchgarwch.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion gorau at bawb ohonoch yn y pentref sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Brysiwch wella erbyn y Nadolig.

PWYLLGOR NEUADD. Cafwyd noson llawn sbort a sbri, nos Wener, Hydref 30ain, yn y Neuadd Gymuned. Daeth nifer fawr o blant ac oedolion i gystadlu yn yr amrywiol weithgareddau Calangaeaf gan wneud y dasg o feirniadu yn anodd iawn i Mr Robin Williams, prifathro Ysgol Gynradd Llanrug. Diolchir iddo a Gwenno a'r hogia am gefnogi ac am sicrhau noson ddifyr a llawn hwyl. Enillwyr y raffl oedd: 1, Ffion Roberts; 2, Dylan Evans; 3, Heulwen Davies. Tynnwyd Clwb Cant mis Hydref a'r enillwyr oedd: 1, Mathew Philips; 2, Nanw Roberts; 3, Mair Foulkes. Diolchir i bawb a fu'n helpu ac i'r rhai a roddodd y raffl.

Mae'n bur debyg y bydd criw o garolwyr yn dod o amgylch y pentref, bydd manylion yn y rhifyn nesaf.

DIOLCH. Dymuna Osian a Sarah ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chyfeillion am eu dymuniadau da ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

EGLWYS Y SANTES HELEN. Dyma fydd trefn y gwasanaeth yn ystod cyfnod y Nadolig:

20 Rhagfyr am 3 p.m. Gwasanaeth y Goleuni gyda plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Croeso cynnes i bawb.

24 Rhagfyr — Noswyl Nadolig — am 11.30 p.m. Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid.

27 Rhagfyr am 10.30 a.m. Gwasanaeth y Cymun a Charolau.

Llongyfarchiadau i Mathew Phillips ar ennill y wobr gyntaf am boster mewn cystadleuaeth arlunio gan Eglwys St. Bodfan, Aber. Daeth Griff Jones, Hanna Williams, Anna Beynon a'i chwaer Rachel hefyd yn agos i'r brig. Bydd poster buddugol Mathew a'r enillwyr eraill yn cael eu harddangos yn Theatr Gwynedd o 28 Tachwedd ymlaen.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Mrs Blodwen Pritchard Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

DIOLCH. Dymuna Jim a Margaret Munro anfon cyfarchion cynnes am Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb o'u teulu a'u cyfeillion.

AWR I'W SBARIO?

HELP! Mae angen rhywun i nôl copïau'r Eco ar gyfer Waunfawr a Chaeathro o'r canolfannau lle plygir y papur bob mis. Ar hyn o bryd mae'r Trefnydd Bwndelu yn danfon yr Eco i'r ddau bentref, sy'n anfoddhaol ac yn gwneud gwaith y Trefnydd yn anodd. Oes yna rywun fyddai'n fodlon rhoi awr y mis i gefnogi'r Eco trwy nôl y papur ar gyfer dosbarthwyr Waunfawr a Chaeathro? Gorau oll os cawn nifer a fyddai'n fodlon rhannu'r gwaith a chymryd eu tro i nôl y papur gan ysgafnhau'r gwaith i bawb.

Cysylltwch â'r

Trefnydd Bwndelu
ar (01286) 871 550
neu un o'r golygyddion.

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Nelma Pritchard, Min y Grug yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Annie Bennett a Mr John Elwyn Roberts, 24 Stad Bro Waun sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croesawn Mrs Mary Davies, Bryn Eithin a Mrs Doreen Parry, Bro Waun gartref wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty ac anfonwn ein dymuniadau da hefyd i Mr Elfed Roberts, Dwyros sydd wedi derbyn triniaeth i'w lygad.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Gwyneth a John, Llys Meredydd ar enedigaeth eu merch fach.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Daren a Sioned Thomas, Dôl Erddi ar eu priodas yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Heledd Elfryn, Coed Gwydryn fydd yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed yn ystod mis Tachwedd.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs John Elwyn Roberts, Glaslyn, 24 Bro Waun ddiolch i'w holl ffrindiau am bob cymorth a charedigrwydd a gafwyd yn ystod yr amser y bu John yn yr ysbyty.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson hwyliog a diddorol iawn yn y Gymdeithas nos Lun, Tachwedd 9, gyda'r Parchg Emlyn Richards yn rhoi sgwrs ar y testun 'Dylanwadau'. Soniodd am y dylanwad y mae technoleg wedi'i gael ar ein bywydau. Llywydd y noson oedd Mrs Myra Turner a diolchwyd i Mr Richards gan Mr Humphrey O. Jones.

Ar Ragfyr 14 y siaradwr fydd Mr Dafydd Whiteside Thomas ar y testun 'Hen Hanes Ardal Afon Gwyrfai'. Croeso cynnes i aelodau newydd. Tâl aelodaeth yw £3.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Festri Croesywaun, bnawn Iau, Tachwedd 5. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Pat Parry. Croesawodd Mrs Peggy Jones yn ôl ar ôl ei gwyliau. Diolchodd Mrs Parry i'r aelodau am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a dymuno'n dda i'r swyddogion newydd. Etholwyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Mrs Catherine A. Jones; is-lywydd: Mrs Mair W. Williams; ysgrifennydd: Mrs Peggy Jones; is-ysgrifennydd: Mrs Anne V. Williams; trysorydd: Mrs Nancy Buckley; is-drysorydd: Mrs Mair Parry. Mae croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Sefydliad.

PLAID CYMRU. Cynhelir Ffair Nadolig yn y Ganolfan, nos Wener, Rhagfyr 11, am 6.30 p.m. Ceir stondinnau amrywiol ac ymweliad gan Siôn Corn wrth gwrs. Dewch draw am noson o hwyl a chyfle i brynu anrhegion. Darperir lluniaeth ysgafn. Croesewir cyfraniadau tuag at y stondinnau neu gymorth ar y noson. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gill Brown (650 547); Eurig Wyn (650 512) neu Jean Jones (650 444), neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

CYFLYMDER MODURON. Mae awdurdodau'r heddlu wedi cytuno i ymestyn y gwaharddiad 30m.y.a ar gyflymdra trafnidiaeth trwy Caeathro ac i adolygu'r sefyllfa ym Metws Garmon a Rhyd-ddu yn dilyn pwysau gan y cynghorydd lleol Eurig Wyn.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn: 'Rwy'n falch fod yr heddlu wedi ymateb yn bositif. Gobeithiaf hefyd y bydd y gyrwyr yn cydweithio trwy wneud pob ymdrech i yrru'n araf a gofalus trwy'r pentrefi hyn.'

DIOLCH. Dymuna Gwynn a Mary Davies, Bryn Eithin ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd yn ystod yr amser y bu Mary yn yr ysbyty yn ddiweddar.

ENILLWYR CLWB 300 am fis Hydref: £40 Mr Peter Hughes, Gwynllys; £25 Mr Alan Owen, 9 Tŷ Hen; £10 Mrs Pat Parry, Bron Llewelyn.

CAIS GAN DREFNYDD BWNDELU YR ECO. Buaswn yn ddiolchgar pe byddai rhywun o'r pentref yn fodlon casglu bwndel Waunfawr o'r man plygu bob mis, os gwelwch yn dda. Gyda diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

TELYN (maint llawn)
AR GAEL I'W BENTHYG
yn ardal Eco'r Wyddfa
Manylion pellach:
LOWRI ANGHARAD 675605

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

YSGOL FEITHRIN LLANBERIS. Diolch i bawb yng Ngwesty'r Heights am y noson codi arian. Cafwyd noson dda a gwnaed dros £300.

PEN-BLWYDD YN 60: Llongyfarchiadau i dri a fu neu a fydd yn dathlu eu pen-blwydd yn 60 oed, sef Melfyn Pritchard, Llys Awel, ar Dachwedd 22; Ken Jones, 2 Glanrafon, ar Dachwedd 23; a Tony Ellis, 5 Nant Ffynon, ar Ragfyr 22.

O'R YSBYTY. Mae'n dda gennym ddeall bod Jordan Sibley, Ceunant wedi dod gartref yn saff ar ôl arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Rydym hefyd yn falch o weld Hefin Pritchard, Tyddyn Alys gartref ar ôl sbel yn Ysbyty Gwynedd.

CROESO i bedwar teulu newydd sydd wedi dod i fyw yn y Nant: Pennyu ac Iwan yn Cae Perthi, a theuluoedd newydd 7 Glanrafon, 8 Glanrafon a'r Hen Ysgol.

PARTI NADOLIG. Bydd gennym noson i'w chofio yn y pentref nos Wener, Rhagfyr 4. Bydd yr holl bentref yn dod ynghyd yn Nhy'n Llan gyda Siôn Corn yn dod i weld y plant — os byddant yn blant da. Diolch i bwyllgor y Carnifal am yr holl drefniadau ac am eu gwaith da trwy'r flwyddyn.

GYMNASTEG. Mae Nora Mullane, Cae Gwyn wedi gwneud yn dda iawn yng Nghlwb Gymnasteg Bangor yn ddiweddar. Y mis yma daeth yn ail ar y trawst, y bocs a'r llawr.

CWIS. Yn dilyn nosweithiau yn Nhy'n Llan dosbarthwyd elw'r nosweithiau i fudiadau lleol, sef Carnifal Nant Peris, Rasus Cŵn Nant Peris, Band Bach Llanberis, a Phlas Pengwaith, Llanberis. Gwerthfawrogir llafur Mr Meirion Griffiths yn paratoi a chynnal y cwisiau a diolch hefyd i Richard a Llinos, Ty'n Llan am y gwobrau hael.

EGLWYS SANT PERIS. Dyma drefn gwasanaethau'r mis —

Tachwedd
29: Gwasaneth Undebol yng Nghwm-y-glo am 10 a.m.

Rhagfyr
6: Cymun am 9.15 a.m.
13: Gosber (Evensong) am 4.45 p.m.
20: Cymun am 9.15 a.m.
24: Cymun Nadolig am 11.30 p.m.
27: Gosber (Evensong) am 4.45 p.m.

MENTER NEWYDD. Dymuniadau gorau i Eilian ac Elfyn Williams (meibion 7 Nant Ffynnon) yn eu menter newydd yn Fferm Dinas Ddu, Aberglaslyn.

PARTI. Cynhelir parti gan Body Shop yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Rhagfyr 2. Mae tocynnau ar werth am £2, sy'n cynnwys gwydraid o win. Ffoniwch Margot, 871866, neu Helen, 871680. Bydd yr elw tuag at Ysgol Feithrin Llanberis.

ANGEN HELP! Mae angen cynorthwy-ydd (helpar!) yn Ysgol Feithrin Llanberis i ddechrau ar ôl y Nadolig. Ffoniwch Margot, 871866, neu Helen, 871680.

NOSON O GANU CAROLAU
yng nghwmni
LLEISIAU LLIWEDD
yn Festri Capel Rehoboth
Nos Iau, 10 Rhagfyr
am 7.30 o'r gloch
CROESO CYNNES I BAWB

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales) Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern
INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Y GANOLFAN GYMUNEDOL. Cynhaliwyd noson Tombola lwyddiannus iawn yn yr Ysgol a gwnaed elw o £198. Diolch yn fawr am y gefnogaeth dda. Enillwyr y Tombola/Raffl nos Fercher, 4 Tachwedd oedd: 1, Wendy Thomas; 2, Fflur Griffiths; 3, Elizabeth Roberts; 4, Margaret Jones; 5, Meinir Williams; 6, Rhian Jones; 7, Fflur Griffiths; 8, Martin Davies; 9, Morfydd Roberts; 10, Pyrs Jones; 11, Maureen Rainbow; 12, Ffion; 13, Mrs J. Williams; 14, Pam Painter; 15, Eryl Roberts; 16, Llinos Hughes; 17, Caroline Evans; 18, Elin Williams; Twrci: Mrs Pritchard, Snowdon View.

Cofiwch am y daith gerdded ar yr 28ain o Ragfyr — cyfle i gael gwared o'r twrci a'r pwdin 'Dolig! Ffurflenni ar gael gan Dafydd Whiteside Thomas neu Rhian Hughes ar 674 662.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i'r teuluoedd sydd mewn galar yn dilyn profedigaethau diweddar: Morfydd, Gwenllian, Iona ac Alun a'r plant yn dilyn marwolaeth eu mam, Mrs Williams, Hafan Elan. Mrs Rhiannon Williams a Trefor, Gelynen House, Ffordd yr Orsaf yn dilyn marwolaeth Mr Eifion Williams. Mrs Madge Hughes, Leonard a Stanley, Crawia ar farwolaeth sydyn iawn Mr William Hughes. Mr a Mrs John Richardson yn eu profedigaeth hwythau o golli Mrs Anna Richardson.

GWAELEDD. Brysiwch wella pawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ac estynnwn ein dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn yr ysbyty, sef Mr John Owen, Erw Wen; Mrs Menai Jones, Sycharth; Llew Jones, Afon Rhos a Selwyn Morris, Gwenmon; ac unrhyw berson arall hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, Rhes Plas Tirion ddiolch o galon i deulu a ffrindiau a fu mor garedig tra bu Harry yn yr ysbyty ac yn enwedig am fynd a Myfi yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty drwy gydol yr wythnosau anodd. Diolch hefyd i'r meddygon teulu ac ysbytai Gwynedd ac Eryri am eu gofal arbennig iawn.

Dymuna Mai ac Alf parry, Bryn Heli ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau — pell ac agos — am y cardiau, galwadau ffôn a'r cydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Sam Jones, Bron Eryri, Cwm-y-glo.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso i nifer dda o aelodau gan yr is-lywydd, Ann Ifans. Dangoswyd diddordeb yng nghystadlaethau Sioe Llanelwedd, 19-22 Gorffennaf, a chynigiwyd fod aelodau'r pwyllgor yn cyfarfod i drafod yr amrywiol weithgareddau, megis llyfryn gwaith, cyfrifiadur, bag clytwaith, pecyn o fwyd i ddau, dilledyn gwaith peiriant gwnïo neu wau, ffotograffiaeth (3 llun) a gwaith llwyfan.

Wedi llwyddiannau lu yn Eisteddfod Merched y Wawr yn y gorffennol, cytunwyd i gymryd rhan yn yr Eisteddfod Rhanbarthol a gynhelir yn Neuadd Ogwen, Bethesda ar Ebrill 1af am 1 o'r gloch; ac yna, os bydd llwyddiant, ym Mhafiliwn Llandrindod, Sadwrn, Mehefin 12fed.

Y mae cardiau Nadolig ar werth o hyd am £1.60 y pecyn a thocynnau llyfrau am £5 yr un.

Cofier am y Gwasanaeth Carolau 'Cadwyn y Nadolig' a gynhelir yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, ar Ragfyr 6ed am 8 o'r gloch. Bydd mynediad trwy raglen yn unig a'r pris yw £2.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig ym mwyty Meifon, Bontnewydd, nos Fawrth, Rhagfyr 8fed am 8 p.m. Enwau ac arian (£10) i Meirwen Lloyd (675 359) neu Gwenda Roberts (675 649) erbyn Rhagfyr 1af, os gwelwch yn dda.

Gwesteion y noson oedd aelodau o'r grŵp Cwtig yng ngofal Llio Rhydderch yn arddel cerddoriaeth draddodiadol yn fwyaf arbennig gyda'r delyn deires. Cafwyd datganiadau ar y ffidil a'r pibgorn hefyd. Mwynhawyd clywed am Delynorion Llanerch-y-medd, gwrando ar fersiynau o 'Meillionen' John Parry a nifer o geinciau eraill. Dangoswyd sleidiau difyr yn olrhain hanes y telynau a'r pibgyrn. Cyflwynwyd y noson mor hamddenol a chartrefol gan Llio Rhydderch a gresyn fod y cloc wedi tipian mor gyflym. Bu'n noson addysgiadol a soniarus iawn i bawb. Diolchwyd iddynt gan Megan Roberts, un oedd yn amlwg wedi llwyr ymgolli yn y cyflwyniadau gan ei bo hithau a'i merch, Gwenan, mor fedrus ar y delyn. Diolchwyd am y baned gan Gwenda.

Felly, cofiwch am y cinio 'Dolig anfonwch eich enwau a'ch arian ac fe ddathlwn hwyl yr Ŵyl ym mwyty Meifod, Bontnewydd. Gwelwn chi yno!

Hogia smart Tîm Pêl-droed 'A' dan 11 oed Llanrug yn eu crysau newydd a noddwyd gan Gymdeithas Adeiladu Nationwide.

Rhoi anrhegion i Ymgyrch Plentyn y Nadolig mae'r plant yma Lanrug.

PLAID CYMRU. Arwel Jones oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod y gangen ym Mhenisarwaun nos Fercher, Tachwedd 19, a chafwyd noson hwyliog yn cael 'Y Stori y tu ôl i'r gân'. Rhoddodd gefndir amryw o ganeuon poblogaidd Hogia'r Wyddfa, a hanes eu cyfansoddi. Enillydd y raffl y noson oedd Phyllis Ellis.

Nos Fercher, Rhagfyr 2, cynhelir y Ffair Nadolig. Bydd Siôn Corn yn Ysgol Gynradd Llanrug am 6.30 o'r gloch, a bydd stondinau a rafflau o bob math. Cyfle da i brynu anrhegion Nadolig, ac i gael paned o de a sgwrs. Croeso cynnes i bawb. Mynediad 30c a 10c i blant.

CAPEL Y RHOS. Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch y plant ar y thema 'Cartref, Cymdeithas, Cymru, Cread a Christ'. Dosbarthwyd y ffrwythau i gartrefi henoed y pentref. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Ifan Emlyn, Tremallt, Ffordd yr Orsaf a Ceri Wyn a Lois Wyn, Bronallt, Ffordd Glanffynnon gan y gweinidog, y Parchg Dafydd Ll. Hughes.

Yn dilyn trychineb corwynt Mitch gwnaed casgliad arbennig ar y 15fed a'r 22ain o Dachwedd a chasglwyd £520.15. Mae cardiau Nadolig yr Ysgol Sul ar werth am £2 am becyn o 10.

Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant ar Ragfyr 20fed am 10 o'r gloch y bore a bydd parti ac ymweliad gan Siôn Corn yn y pnawn.

PLAID CYMRU

FFAIR NADOLIG

nos Fercher, 2 Rhagfyr
yn Ysgol Gynradd Llanrug
am 6.30 o'r gloch

CROESO CYNNES I BAWB

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN AM £1 Y PWYS

★

PORC LLEOL AM 75c Y PWYS

★

PRISIAU ARBENNIG AM GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

LLYFRAU NEWYDD
o ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa*

Bydd gan ddarllenwyr yr *Eco* ddiddordeb neilltuol mewn dau lyfr a gyhoeddir y mis hwn, sef *Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa,* gan Dafydd Whiteside Thomas a *Jonsi,* hunangofiant y darlledwr poblogaidd, Eifion Jones.

Mae enw Dafydd Whiteside yn adnabyddus i bawb ym mro'r *Eco,* a'i ddiddordeb mewn hanes a choelion lleol yn wybyddus i ni oll. Fel y dywed ef ei hun yn y Cyflwyniad, 'Ymgais sydd yma i gofnodi'r chwedlau a'r coelion hynny sy'n gysylltiedig â Bro Peris, sef cymunedau neu blwyfi Betws Garmon, Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a Waunfawr. Mae'r ardal yn cyfateb fwy neu lai i ddalgylch *Eco'r Wyddfa*'

Sonnir am chwedlau a choelion yn ymwneud â'r Tylwyth Teg, Cewri a Chawresau, Cysylltiadau Arthuraidd, Meini a Cherrig Anferth, Ffynhonnau Arbennig a Llwybrau Tanddaearol. Cynhwysir hefyd nifer o fapiau i leoli'r mannau sy'n gysylltiedig â'r chwedlau a'r coelion y sonnir amdanynt. Ni ellir ond cytuno â'r hen ddihareb Wyddelig a ddyfnnir ar ddechrau'r Cyflwyniad, sef 'Y mae chwedl yn fwy gwerthfawr na chyfoeth y byd'.

Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa, Dafydd Whiteside Thomas, Gwasg Gwynedd. Pris: £3.95.



Merch Allt Ddu, Dinorwig oedd mam Eifion Pennant Jones, sydd bellach yn fwy adnabyddus fel Jonsi i filoedd ar filoedd o wrandawyr Radio Cymru, ac yn Ninorwig y cafodd ei fagu. Meddai: 'Ar wahân i 'Nhad a Mr Williams y prifathro, ac un neu ddau arall, chwarelwyr oedd dynion yr ardal i gyd. Hen chwarelwr oedd fy nhaid, John Daniel Williams, Taid Ty'n Fawnog . . . Wedi bod yn y chwarel am ei oes roedd y llwch arno fo. Wrth fynd o flaen y "board" i weld beth oedd ei hanes roedden nhw'n dadlau nad oedd y llwch yn ddigon drwg. Doedd o ddim yn hapus o gwbwl a mynnodd fynd yn ôl. Ac yn ei ôl 33 o weithiau yr aeth yr hen foi a methu cael yr ateb iawn yn y diwedd. Roedd o wedi dweud ei fod am gael ei agor wedi iddo farw i weld pwy oedd yn iawn. Pan wnaethon nhw hynny roedd o'n llawn o lwch, y creadur. Y fo oedd yn gwybod orau.'

Yn yr hunangofiant hwn ceir golwg ar y Jonsi preifat yn ogystal â chyhoeddus. Gwelir hogyn pymtheg oed yn ceisio dygymod â marwolaeth drychinebus ei fam, ac yna, ymhen ychydig flynyddoedd, yn cyfarfod â rhai o enwau mawr adloniant Saesneg. Ac o sôn am enwau, datgelir ei fod ef ei hun wedi newid ei enw bedair gwaith, ond efallai mai arwyddocâd y 'Pennant' yn ei enw bedydd yw'r stori fwyaf anhygoel ohonynt i gyd.

Jonsi. (Cyfres y Cewri 19) Gwasg Gwynedd. Pris: £6.50.

Yn sicr, dyma ddau lyfr y bydd mynd mawr arnynt y 'Dolig hwn wrth odre'r Wyddfa.

Lansio llyfrau newydd Gwasg Gwynedd (o'r chwith i'r dde): Dafydd Whiteside Thomas *(Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa)*; Geraint Lloyd Owen ac Alwyn Elis; Sonia Edwards *(Y Llais yn y Llun)*; Eifion Jones *(Jonsi — Cyfres y Cewri)*; William H. Owen (Golygydd *Jonsi)*; Irwen Cockman *(Tyn yw'r Tannau)*; a Siân Northey *(Ar y Daith)*.

DYMA'R SIOPAU YM MRO'R *ECO* SYDD WEDI CYTUNO I WERTHU'R LLYFRAU

Llanberis:
Becws Eryri
Swyddfa'r Post

Cwm-y-glo:
Oriel Cwm

Llanrug:
Siop y Co-op
Swyddfa'r Post

Ardal Deiniolen
Garej Beran
Swyddfa'r Post

Waunfawr:
Siop Yr Antur
Swyddfa'r Post

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Dewch atom i
Ffair Nadolig
gyda SIÔN CORN
Dydd Sul, 6 Rhagfyr
1 — 5 p.m.
ER BUDD
ADRAN TRAWSBLANNU ARENNAU
Y ROYAL UNIVERSITY HOSPITAL, LERPWL
AR GYFER LLE AROS I DEULUOEDD

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605
RITHOEDD CELYN
COED NADOLIG
Brysiwch i archebu!
Ar agor saith diwrnod yr wythnos

Newyddion Ysgol Brynrefail

Fflorida '99

Ydych chi'n cofio'r tocynnau di-ddiwedd? Y torri allan a'r gludo blinedig? Wel, braf o'r diwedd yw gallu cyhoeddi bod gwerth i'ch holl lafur. Wedi chwe wythnos o gasglu mae disgyblion Ysgol Brynrefail wedi ennill cystadleuaeth Fflorida '99 y *Daily Post!* Wir!

Fel y gwyddoch amcan y gystadleuaeth oedd casglu cymaint o docynnau o'r llygoden fyd-enwog ag oedd yn bosib mewn cyfnod o chwe wythnos. Byddai cyfanswm yr ysgol wedyn yn cael ei rannu â nifer y disgyblion yn yr ysgol er mwyn cael cyfartaledd y pen. Bu disgyblion Brynrefail wrthi'n gydwybodol yn casglu a chawsant gymorth sylweddol gan gwmnïau lleol a chyfeillion yr ysgol.

Ddydd Iau, 12 Tachwedd, cyhoeddwyd fod Ysgol Brynrefail wedi ennill eu categori yn y

gystadleuaeth (ysgolion a chanddynt 600 neu fwy o ddisgyblion), ac felly gwahoddwyd cynrychiolaeth o'r ysgol i Westy Parc Dewi Sant er mwyn dewis enillydd y brif wobr. Y dull o ddewis oedd rhoi enwau'r pedair ysgol fuddugol mewn het a gwahoddwyd golygydd y *Daily Post* i dynnu un enw allan. Gwnaed hynny a chyhoeddwyd mai Ysgol Brynrefail oedd yn fuddugol.

Mae'r holl wobrau'n cynnwys gwyliau i 35 o ddisgyblion a 12 aelod o staff i Fflorida gyda phopeth yn gynwysedig — bwyd, diodydd, Parc Disney, Epcot, Sentinel, a hyd yn oed pres poced! Bydd y disgyblion hynny a gasglodd y nifer mwyaf o docynnau yn mynd ar y gwyliau — mater arall fydd dewis yr athrawon!!

Yn ogystal â'r wobr ffantasig uchod bydd yr ysgol yn cael gwerth £500 o lyfrau, gwerth £500 o CD-rom, siec am £1,000 a pharti bythgofiadwy i'r ysgol gyfan.

Dymuna staff a disgyblion Ysgol Brynrefail ddiolch o waelod calon i bawb am gyfrannu tuag at yr ymgyrch hon. Teimlir fod y gymuned gyfan wedi cefnogi'r fenter. Diau mai trwy gydweithio y sicrhawyd llwyddiant yn yr achos hwn, sy'n fodd yn awr i wireddu breuddwydion 35 o ddisgyblion ffodus . . .

Eisteddfod yr Ysgol, Hydref 29, 1998

Unwaith eto cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniaid — Mrs Carys Jones a Mrs Megan Roberts, cerdd; Mrs Esyllt Penri, llefaru a llenyddiaeth; a Mrs Aelwen E. Jones, dawnsio disgo.

Dechreuodd yr eisteddfod yn llawn cynwrf am 11.30 y bore gyda cystadlu brwd yn dod o bob tŷ ac aelodau'r chweched dosbarth yn chwysu wrth gael y partïon i'w trefn.

Eisoes roedd tŷ Eilian wedi dod i'r brig yn y cystadlaethau ymlaen llaw. Disgyblion wedi bod yn brysur yn cynhyrchu gwaith o safon uchel mewn Cymraeg, Saesneg, Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol a Mathemateg, a braf oedd gweld y plant yn edmygu'r gwaith buddugol oedd wedi'i arddangos yn y neuadd.

Cafwyd tlws newydd y flwyddyn yma i'r rhai a enillodd fwyaf o farciau ymlaen llaw ac fe aeth i Natalie Blanchard 7S o dŷ Elidir a Sarah Weir 8S hefyd o Elidir.

Yn ystod y prynhawn cawsom fwy o hwyl gyda'r parti bechgyn yn rhoi sioe arbennig i ni gyda'u canu ac actio gwych ac Eryri ddaeth i'r brig.

Erbyn yr hwyr roedd y gân ysgafn wedi ei pherfformio gyda Eryri unwaith eto'n cipio'r wobr gyntaf.

Yna tipyn o urddas. Y cadeirio. A dweud y gwir a oes gwell gorsedd i'w chael heblaw am y Genedlaethol?

Jennie Lyn Morris o dŷ Gwyrfai oedd ein bardd gyda'i stori, 'Y Stafell Ddirgel' a kate Beard o dŷ Eilian oedd y llenor ifanc gyda, 'Dianc'.

Ymlaen wedyn â'r cystadlu gyda llawer o sêr yn ymddangos ac i ddiweddu'r noson, y côr tŷ. Enillwyr y côr oedd Eilian ac hefyd dyma'r tŷ buddugol eleni.

Felly, dyma sut roedd y marciau ar ddiwedd y noson: Eilian 763, Eryri 749, Gwyrfai 704, Elidir 638. Bydd rhai o'n cyn-ddisgyblion yn siŵr o holi beth a ddigwyddodd.

Ennill Gwobr Ansawdd

Ddechrau'r mis, mewn gwesty yn Y Trallwng, cyflwynodd Mr Peter Hain, AS, 'Gwobr Ansawdd Cenedlaethol' i'r ysgol am ei rhaglen profiad gwaith.

Mae'r ysgol yn ymfalchïao yn y gydnabyddiaeth ac yn falch o gydnabod mai ymdrech tîm o bobl oedd yn ennill y wobr — tîm uwch reoli'r ysgol, yr athrawon, y disgyblion, Celtec, Hyfforddiant Gwynedd a'r holl gyflogwyr.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r cyflogwyr lleol am eu cefnogaeth parod dros y blynyddoedd a'r barterniaeth glòs sy'n bodoli rhwng yr ysgol a hwy.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

R.D. Thomson
Crefftwaith Coed
Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?
Cysylltwch â
GORONWY HUGHES
Tel/Ffacs (01286) 674839
E-Bost gorhug@global.net.uk
Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

Diolch i'r Gymuned

Bellach mae cyswllt agos iawn wedi'i sefydlu rhwng yr ysgol a chyflogwyr lleol. Yn ddiweddar bu 110 o ddisgyblion blwyddyn 11 allan ar brofiad gwaith a chafwyd canmoliaeth o'r ddwy ochr ar lwyddiant y fenter eto eleni.

Mae ein diolch yn fawr i haelioni'r cyflogwyr lleol sydd bob amser yn fodlon cefnogi'r ysgol.



Tîm Nofio Ysgolion Eryri ym Mhencampwriaeth Nofio Cymru

Yn Abertawe, ar Dachwedd 12 a 13, daeth llwyddiant i dri o ddisgyblion yr ysgol sy'n aelodau o dîm Eryri.

O dan 15 oed roedd Eifion Williams yn cystadlu er mai ond 12 oed ydyw ac fe ddaeth yn gyntaf yn y ras dull 100m ac yn drydydd yn y dull medli unigol 200m.

Elin Dafydd ddaeth yn ail yn y ras dull medli unigol 200m, ac yn drydydd yn y ras gyfnewid o dan un ar bymtheg oed.

Iwan Parry Jones fu'n nofio yn y ras gyfnewid o dan un ar bymtheg oed a'r tîm yn dod yn seithfed.

Fe wnaeth y tri eu gorau i sicrhau pwyntiau i dîm Eryri a ddaeth yn bedwerydd allan o wyth o dimau.

Camp Newydd i'r Merched

Rydym wedi hen arfer â chlywed am lwyddiant y bechgyn mewn pêl-droed ond mae'r genethod am sylw hefyd! Wedi treialon ym Mhorthmadog ac yn y Rhyl fe aeth pump o'r merched i dîm pêl-droed merched gogledd Cymru — Ceri Jones, Elisa Orlik ac Elin Hardin o Lanberis a Lisa Williams a Louise Griffith o Fethel. Bydd y pump yn teithio i Aberystwyth ar Dachwedd 28ain i chwarae yn erbyn tîm de Cymru. Pob lwc i'r genod!

Llais y disgyblion yn cael ymateb

Mewn ymateb i ofynion disgyblion yn y 'fforwm disgyblion' fe wariwyd yn helaeth ar wella cyflwr toiledau'r merched. Bellach ni fydd rhaid mynd o gwmpas yr ysgol gyda gwallt blêr gan iddynt gael y drychau y gofynnwyd amdanynt.

Nawr, ferched, edrychwch ar ôl y safle!

DYDDIADUR RHAGFYR

1. Maw	**DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Siân Gibson a Sharon V. Williams.
3. Mer	**LLANRUG:** Plaid Cymru — Ffair Nadolig yn Yr Ysgol Gynradd.
	LLANBERIS: Parti gan y Body Shop.
3. Iau	**DEINIOLEN:** Trip Clwb Elidir i Landudno.
4. Gwe	**LLANBERIS:** Ffair Nadolig Plas Pengwaith am 2.30.
	NANT PERIS: Parti Nadolig gyda Siôn Corn.
	DEINIOLEN: Noson Goffi Plaid Cymru gyda Siôn Corn.
3. Sul	**YR ARDAL:** Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon am 8 o'r gloch.
8. Maw	**LLANRUG:** Swper Nadolig Merched y Wawr.
9. Mer	**LLANBERIS:** Cawl a Chân yn yr Amgueddfa gyda Hogia'r Wyddfa ac Aria.
10. Iau	**DEINIOLEN:** Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gwaun Gynfi yn Ebeneser am 2.
	LLANRUG: Gwasanaeth Carolau yn Hafan Elan.
11. Gwe	**WAUNFAWR:** Ffair Nadolig am 6.30.
	DEINIOLEN: Cinio Cymdeithas Cyfeillion yr Eglwys.
14. Llun	**WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Dafydd Whiteside Thomas.
	PENISARWAUN: Noson o Garolau yn y Neuadd.
15. Maw	**LLANBERIS:** Carolau Nadolig yn Capel Coch gyda Lleisiau Lliwedd.
	CWM-Y-GLO: Noson o Garolau yn yr Ysgol gyda Seindorf Arian Llanrug.
	PENISARWAUN: Parti'r Urdd.
17. Iau	**DINORWIG:** Noson o Garolau gyda Seindorf Deiniolen.
	DEINIOLEN: Cyfarfod Nadolig y Merched yn Ebeneser.
20. Sul	**DEINIOLEN:** Gwasanaeth Nadolig y plant yn Ebeneser am 10. Gwasanaeth Nadolig am 5 o'r gloch yn yr Eglwys. Gwasanaeth yng Nghefnywaun am 5.
	PENISARWAUN: Gwasanaeth Goleuni am 3 yn yr Eglwys.
	BRYNREFAIL: Gwasanaeth Nadolig am 2 o'r gloch.
24. Iau	**PENISARWAUN:** Gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 11.30 yr hwyr.
25. Gwe	**DEINIOLEN:** Gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 9 o'r gloch y bore.
27. Sul	**PENISARWAUN:** Cymundeb a Charolau am 10.30 a.m.
	DEINIOLEN: Gwasanaeth Goleuni am 5 o'r gloch yn Eglwys Llandinorwig (Undebol).

RHODDION

£10: Rhian a Glyn Tomos, Rhosbodrual. Mrs Margaret Jones, Llainwen, Racca, Penisarwaun.
£5: Mrs Jones, Madryn, Llanrug. Mr a Mrs Harry Roberts, Llanrug. Mr a Mrs Gwyn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr. Mr a mrs John Elwyn Roberts, Glaslyn, Waunfawr. Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Waunfawr. Jim a Margaret Munro, Penisarwaun. Myra Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun. Mrs P. James, Bryn Mair, Llanrug.
£3: Owen a Rhian Jones, Dulas, Deiniolen.
£2: Teulu Buddug a Barry Thomas, 5 Rhydfadog. Mr Vaughan Evans, Clwt-y-bont gynt. Helen Morris, 7 Rhes Fictoria, Deiniolen. Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug.

PRYD I BAWB . . .

MEDDWL AM BARTI DROS Y NADOLIG NEU'R FLWYDDYN NEWYDD?

DIM AMSER I GOGINIO?

GADEWCH I RYWUN ARALL WNEUD Y GWAITH

ARLWYO AR GYFER POB ACHLYSUR

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â

CERID MACKINNON (01286) 673190

CANOLFAN FFITRWYDD P.C.

Hen Safle Marconi
Waunfawr
(01286) 650011

★ OFFER RHAGOROL ★
★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
★ CAWODYDD ★
★ TALU WRTH Y DRWS ★
★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:
11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:
1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffoniwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

ELLIS WYN

SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am **Fwffe Enwog Nerys**
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **DANNY, NERYS** A'R **STAFF**

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

---

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A Stryd Fawr
Llanberis 872501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Brysiwch i gael eich
TEGANAU, SIOCLED,
CARDIAU NADOLIG
AC ANRHEGION CAIN
yn siop

GWYNETH AC EIFION ROBERTS

CACENNAU NADOLIG
A BARA BRITH
TRADDODIADOL

COFIWCH FOD EIN CAFFI CEGIN ERYRI
AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Y LLE DELFRYDOL
I BRYNU ANRHEG
NADOLIG I'CH
ANIFEILIAID ANWES

PET CARE TRUST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill, Peter a James

GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Pacio bocsus Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn Ysgol Dolbadarn.

CYMDEITHAS Eglwys St Peris a St Padarn. Daeth nifer dda o'r aelodau i'r cyfarfod nos lau, Tachwedd 5, yng nghartref y Curad, a chroesawyd hwy yn gynnes gan y cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones.

Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mrs Nancy Jones, Taliesin.

Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu ein gŵr gwadd, Mr Gordon Parry, un o gyn-aelodau côr egwlys St. Padarn, sydd bellach yn gweithio'n wirfoddol i Gymdeithas Plentyn y Nadolig yn ardal Wrecsam. Gyda chymorth fideo a'i sgwrs hamddenol daeth a'r gwaith arbennig sy'n cael ei wneud, ac sydd hefyd i'w wneud yn y gwledydd sy'n dioddef o effeithiau rhyfel a thrais, yn fyw iawn i ni.

Mrs Gracie Roberts a Mrs Buddug Hughes oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Hilda Williams. Diolchwyd iddynt i gyd gan Mrs Olwena Morris.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu aelodau'r Undeb yn eglwys St. Padarn bnawn Mawrth, 3 Tachwedd, yng nghartref y Curad. Mrs Nan Owen gymerodd y gweddiau agoriadol.

Ein gŵr gwadd oedd Mr John Hugh Hughes, Tan-y-clogwyn a chafwyd pnawn hynod ddiddorol yn ei gwmni. Soniodd am nifer o gymeriadau a oedd yn arbenigo â'r 'Straeon Celwydd Golau' a mwynhaodd pawb y sgwrs yn fawr iawn.

Cytunodd Mrs Bet Hughes a Mrs Gwen Williams i gyflwyno'r dorch ar y Gofeb ddydd Sul y Cofio.

Gwnaed trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Llithoedd a Charolau pryd y disgwylir aelodau o Gwm-y-glo a Llanrug i ymuno â ni.

Anfonwyd cyfarchion a dymuniadau am wellhad buan i Mrs Beryl Owen, Mrs Muriel Morris a Mrs Betty Williams.

Mrs Jean Roberts a Mrs Bet Hughes oedd yn gofalu am y baned a diolchwyd iddynt ac i Mr Hughes gan Mrs Betty Humphreys ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Hilda Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Nan Owen. Diweddwyd y cyfarfod trwy gydadrodd y Gras.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos a Dylan ar achlysur eu dyweddïad. Pob lwc iddynt i'r dyfodol oddi wrth y ddau deulu.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Dilys Evans ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

Mae Melissa Roberts eisiau diolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Mrs Margaret Wyn Jones (Siop Formag) ddiolch o galon i bawb am y llu o gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty, ac wedyn wedi iddi ddod gartref a dathlu ei phen-blwydd.

PLAS PENGWAITH. Bydd **Ffair Nadolig** yn cael ei chynnal brynhawn **dydd Gwener, 4 Rhagfyr, o 2 p.m. ymlaen.**

Gawn ni hefyd ddymuno pob lwc a hapusrwydd i Mrs J. E. Parry sydd wedi ymgartrefu yn ôl yn Hafan Elan, Llanrug.

Dydd Llun, 16 Tachwedd, fe gafodd nifer o'r trigolion fynd i fwynhau cinio Nadolig yng Ngwesty Carreg Brân, Sir Fôn, gyda chymorth y staff a diolch yn fawr i Mrs M. Mathews am drefnu'r diwrnod.

Yn yr ysbyty mae Mrs F. Ellis a Mrs M. Munro ac mae pawb yn cofio atynt ac yn dymuno gwellhad buan iddynt.

Fe gafwyd cyfle i'r trigolion wylio'r ffilm 'Titanic' a fish a chips wedyn ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

Ar ddiwrnod Guto Ffowc penderfynodd y staff i ni ddathlu'r diwrnod gyda choelcerth a thân gwyllt ar lawnt y cartref. Fe wnaed Guto Ffowc, ac un da oedd o hefyd hefo dillad smart, esgidiau, menig, a het am ei ben. Fe'i rhoddwyd i eistedd am sbel wrth y drws ffrynt ac fe ddychrynodd un wraig o'i weld yn sefyll yno pan ddychwelodd i'r cartref!

Carem ddiolch i'r cynorthwywyr am roi o'u hamser i aros i helpu. Rhoddwyd tân ar y goelcerth am hanner awr wedi pump a chawsom olygfa gwerth chweil o'r lolfa. Y tu allan i'r cartref daeth nifer o blant i wylio. Wedi i'r tân ddarfod cawsom bryd o gawl, bîffbyrgar, hot-dogs a phaned a chacen. Wedyn cawsom ddarn o daffi triog roedd mam un o'r staff wedi'i wneud i'r trigolion. Gorffennwyd y noson yn cnoi'r taffi triog a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch am y noson.

MARY WILLIAMS (gynt o Lanrug)

Ar ddiwrnod cofio'r Rhyfeloedd Byd, ar 8 Tachwedd, ac ar ôl inni fod yn y gwasanaeth wrth y gof-gologn fe ddaeth Band Arian Llanberis yma i roi gwasaneth bach i'r trigolion i ni feddwl a chofio am y golled a gafwyd yn y Rhyfel Byd. Gwerthfawrogodd y preswylwyr yr amser a roddwyd iddynt ar y diwrnod hwn ac fe ddaeth ag atgofion i amryw ohonynt. I gloi'r gwasanaeth fe ganwyd y 'Last Post'. Diolch yn fawr i'r Band a'u harweinydd am roi o'u hamser. Pob llwyddiant iddynt a diolch iddynt am atgyfodi'r band yn yr ardal unwaith eto.

Gorfod ymddeol o'i gwaith y mae mrs V. Thomas. Bu'n gweithio yn y cartref ers rhai blynyddoedd ac yn weithgar ym mhob achosion y cartref. Dymunir gwllhad llwyr iddi a phob lwc i'r dyfodol oddi wrth y trigolion a'r staff i gyd.

APÊL HONDURAS. Diolch am yr ymateb a gafwyd i Apêl Honduras a Nicaragua Cymorth Cristnogol. Agorwyd festri Nant Padarn ar ddau fore i dderbyn bwydydd a blancedi a chafwyd ymateb rhagorol. Roedd mwy na llond fan o nwyddau wedi ei gyfrannu a chafwyd hefyd £563 at yr Apêl.

Y GYMDEITHAS. Nos Fawrth, Tachwedd 10, cafwyd darlith gan Mr Norman Williams, Brynrefail. Llywyddwyd y cyfarfod ac estynnwyd croeso i'r darlithydd gan Mr John H. Hughes.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Mae'r Côr wedi bod yn ffodus iawn o gael arweinydd newydd, sef Mrs Mair Hughes o Lanrug. Dechreuodd Mair ar ei gwaith nos Lun, 2 Tachwedd, a dymunwn pob llwyddiant iddi yn y gwaith. Hefyd wrth groesawu Mair mawr yw ein diolch i Arwel am gael y Côr i'r safon y mae ynddo'n awr. Ni fydd Arwel yn cefnu arnom gan y bydd yn dal i fod yn is-arweinydd ac yn aelod o'r Côr.

Nos Wener, Tachwedd 6, bu'r Côr yn diddanu pob Eglwys-bach yn Nyffryn Conwy. (Llawer o ddiolch am y wledd!)

Nos Sadwrn, Tachwedd 7, roedd y Côr yn canu yng Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis.

Nos Sadwrn, Tachwedd 14, roedd y Côr mewn cyngerdd yn Abergynolwyn ac fe gafwyd hwyl iawn ar y noson. Roedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i gasglu arian at achosion da. Llawer o ddiolch eto am y wledd a gafwyd. Anfonwyd siec o £50 tuag at Gronfa Plant Mewn Angen a hefyd £50 i Gronfa Nicaragua. *GORONWY LEWIS*

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Tachwedd oedd: £35 Mrs Carol Owen, Stryd Newton (131); £25 Mrs B. Evans, Tŷ Crwn (38); £15 Mrs M. Davies, Stryd yr Wyddfa (98); £10 Mr D. Roberts, Y Bistro (14); £5 Mrs R. Lampard, Tŷ Gwyn, Nant Peris (92).

Carnifal Llanberis

Llywydd y Carnifal, Mr Ieuan Ellis Jones, yn cyflwyno siec o £2945 i'r ysgrifennydd, Tom Eilian Jones a'r cadeirydd, Mr Ken Jones, ar ran Canofan Gymdeithasol Llanberis.

Yn y pwyllgor blynyddol a gynhaliwyd ar 9fed o Dachwedd, penderfynwyd cynnal wythnos y Carnifal o'r 12fed hyd yr 17eg o Orffennaf 1999. Dewiswyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Ieuan Ellis Jones; Cadeirydd: Gareth Jones; Trysorydd: Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Alan T. Jones. Aelodau'r pwyllgor yw Julie Baylis, Eurwyn Thomas, Arwyn Roberts ac Eric Baylis.

Yn dilyn ymddiswyddiad Mairwen Bayis a Catherine Williams o'r pwyllgor rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith caled a llafurus y mae'r ddwy wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd. Felly, rydym yn chwilio am rai eraill fydd yn fodlon bod yn gyfrifol am drefnu coroni brenhines y Carnifal. Os oes rhywun â diddordeb, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor, os gwelwch yn dda.

CAROLAU NADOLIG
yng nghwmni
LLEISIAU LLIWEDD
yn FESTRI CAPEL COCH
NOS FAWRTH, 15 RHAGFYR
am 7 o'r gloch
Trefnir gan y Gymdeithas Lenyddol
CROESO CYNNES I BAWB

GWAHODDIR CEISIADAU AM Y GWAITH O
LANHAU CYSGODFANNAU DAL BWS YN NANT PERIS A LLANBERIS
Manylion gan y Clerc
I. L. JONES
7 Brynmoelyn, Llanrug
Ffôn: (01286) 675874
Ceisiadau i law erbyn
16 Rhagfyr 1998

Cwmtudur Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203

Cyfarchion y Nadolig oddi wrth Roger a'r staff, a dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd

RYDYM YN DAL I GYMRYD ARCHEBION AR GYFER PARTÏON NADOLIG A CHINIO DYDD NADOLIG OND — BRYSIWCH NEU MI FYDD YN RHY HWYR!

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
NICEIC
APPROVED CONTRACTOR
11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth Elaine a Steven Smith
THE PANNIER
50 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 870301
DEWCH ATOM AM FRECHDANAU A BYRBRYDAU FFRES A WNEIR AR EICH CAIS
Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.
DERBYNNIR ARCHEBION DROS Y FFÔN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
PAT A KEN
CREFFTAU FFERM
CAE COCH
STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: 870777
GALWCH I MEWN AM ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN
Diolch i bawb am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
W.J. DAVIES
MODURDY'R WYDDFA
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd
JOHN WHITE
THE BODY SHOP
LLANBERIS
★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y gwesty. Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa

Ar ben arall y lein . . .

Ers rhai blynyddoedd bellach rwyf wedi bod yn cyfeirio at broblemau ansawdd y dŵr yn Llyn Padarn ac Afon Seiont — yn enwedig wedi digwyddiadau 1992 pan welwyd dŵr y Llyn yn troi'n wyrdd. Yn y chwe blynedd ddiwethaf rydym wedi gweld nifer y sewin a'r eog a ddaliwyd yn y Seiont yn disgyn hyd at y tymor diwethaf i'r lefel isaf mewn cof.

'Rydym fel Clwb wedi ceisio popeth i gael gan yr awdurdodau sylweddoli bod rhywbeth mawr o'i le ac ers dechrau Mehefin ar gynllun stocio eog ifanc yn nyfroedd rhan uchaf Afon Peris, gwyddom yn ein calonnau na wnaiff y cynllun lwyddo hyd nes gwella amgylchedd Padarn a'r Seiont. Yn wir, hir fu'r daith a llawer llwybr hollol anffrwythlon y bu'n rhaid ei ddilyn cyn o'r diwedd cael y wybodaeth ar pa drywydd i'w dilyn. O County Mayo yn Iwerddon y daeth y wybodaeth gan swyddog o'r 'Salmon Research Trust of Ireland' a synhwyrodd rhain trwy gael y wybodaeth fod rhywbeth mawr o'i le ar ansawdd y dŵr — yr hyn oedd yn hollol wybyddus i'n haelodau trwy edrych ar yr afon a'r llyn — chwyn anaturiol ym mhobman a'r gwelyau claddu wedi eu gorchuddio â thyfiant o chwyn ac algi. Hefyd roedd dŵr yr afon wedi mynd i edrych mor ddu â glo a phan edrychwn ar gerrig gwely'r afon roeddent wedi newid o'u lliw naturiol i ddu ac wedi eu gorchuddio â rhyw stwff y gallaf ei ddisgrifio yn unig fel jeli du.

O'r Iwerddon aeth yr ymholiadau wedyn i dde-orllewin Lloegr; oddi yno aed ymlaen i Fanceinion ac oddi yno fe ddaeth arbenigwr i adolygu'r broblem — a dyna ddechrau edrych ar bethau o ddifrif. Ar 18 Tachwedd cafwyd cyfarfod ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Dŵr Cymru, First Hydro, Cwmni Ynni Padarn, Cyngor Gwynedd a'r Gymdeithas ac wedi cryn drafod ar syniad anhygoel gan Astiantaeth yr Amgylchedd mai rheswm am y dirywiad yn y pysgod oedd fod *llai* o bobl yn 'sgota. Wrth gwrs gwyddom fod hyn yn hollol groes i'r gwirionedd gan mai dyma'r tymor y gwerthwyd mwyaf o docynnau pysgota ers llawer blwyddyn. Cytunodd pawb fod problem ac mae'r astudiaeth i fywydeg yr afon yn dechrau yn syth. Y cam nesaf fydd ail-gyfarfod yn Ionawr i drafod ymhellach ac i benodi pwyllgor gweithredu ar sail yr un sy'n gweithredu i ddatrys problemau Llyn Tegid. O'r diwedd mae'r maen wedi cael ei yrru i'r wal, a'r llanw o anobaith o'r diwedd wedi troi yn obaith.

Er yr holl drafferthion fe ddangoswyd potensial y Seiont i ail-afael yn ei safon — os caiff y cyfle — gan mai dyma'r afon a roddodd ddau eog trymaf y tymor ar ddyfroedd y Gymdeithas, sef un o 13½ pwys i Merfyn Harris o'r Felinheli; ac un 13 pwys i James Carr o Lanrug; y ddau 'sgodyn yma o gyffiniau Llanrug o'r afon.

Mae'r gwaith datblygu yn symud ymlaen yn foddhaol iawn. Mae cynllun wedi'i wneud i wella'r Llyfni ac yn barod mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi prynu peiriant i gyfri pysgod sydd i'w leoli ym Mhont y Cim — mae hyn wedi golygu buddsoddiad sylweddol ac yn dyst o'r cydweithrediad â'r Gymdeithas. Bydd y peiraint yma'n hanfodol a'r gwaith o ddatblygu'r Llyfni yn un o brif afonydd sewin y wlad a bydd hyn yn sicr o roi hwb sylweddol i economi'r ardal. Os deil pethau i symud ymlaen fel ag y maent bydd ein gobeithion i allu cynnig swyddi yn realiti o fewn y dyfodol agos. Rhaid mynegi ein diolch i Gyngor Gwynedd, ei swyddogion datblygu lleol ac hefyd gweithgor Strategaeth Ardal y Lechen, Nantlle am eu brwdfrydedd, cymorth a chyngor i gamu ymlaen tua'r nod.

Fel y gwelir ar ddechrau'r erthygl, siomedig fu'r tymor ar y Seiont ond mae'n bleser cael dweud fod y Llyfni wedi 'sgota'n eithriadol gyda'r nifer o sewin a laniwyd y gorau ers blynyddoedd lawer. Nid yw'n addas i enwi'r genweirwyr llwyddiannus neu fe fydd y golygydd yn rhedeg allan o le. Ar y llaw arall nid yw popeth yn hardd yn yr ardd — rwy'n sôn am y sefyllfa o 'sgota oddi ar y ffordd ym Mhont y Cim. Mae'n wir ei bod yn hen draddodiad, ond nid fel y bu yn ystod y tymor diwethaf yma. Un gyda'r nos roedd ugain yn 'sgota yma a hynny ysgwydd wrth ysgwydd, wrth gwrs mae rhai ohonynt yn aelodau o'r Gymdeithas ond nid yw'r rhan fwyaf yn cyfrannu dim at redeg yr afon. Gyda'r nifer o sewin bychan a oedd yn cael eu tynnu o'r afon fe all rhywun ofyn y cwestiwn a yw'n briodol i'r Gymdeithas ysgwyddo'r baich ariannol i wella safon yr afon pan fo ymddygiad fel hyn yn mynd ymlaen?

Mae'n siŵr y bydd fy nglustiau'n llosgi wedi i rai ddarllen hyn — ond o ran hynny mae 'nglustiau wedi bod

Merfyn Harris yn arddangos yr eog 13½ pwys o Afon Seiont.

bron ar dân oherwydd nifer o faterion! Dyma ichi un dda — codwyd gan rai fater prydles 'sgota sydd wedi ei rhoi ar beth 'sgota ar waelod Afon Seiont gan y Cyngor ac maent eisiau gweld y Gymdeithas leol yn colli'r hawl i ddefnyddio'r rhan hon o'r afon. Yn ffodus mae'r cynghorwyr yn sylweddoli pwysigrwydd y Gymdeithas i'r ardal a rhoddwyd ymateb iawn i syniad mor ddisynwyr a chlywais fod tipyn o gynwrf wedi bod yn Siambr y Cyngor wedyn. Gan pwy 'sgwn i?

H. P. HUGHES

Charles Oscar Owen
un o gymwynaswyr cerdd Llanberis

(Ymddangosodd yr erthygl hon yn Y Tyst *ym mis Ionawr 1961. Mae'n deyrnged addas i un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'w fro.)*

Ganwyd Charles Oscar Owen Mai 22, 1883, yn Nhwyn yr Eglwys, Llanberis, tŷ â'i wyneb tua'r Wyddfa. Dechreuodd weithio yn Chwarel Dinorwig yn 13 oed a chwarelwr fu am dros 50 mlynedd. Cerddoriaeth oedd ei brif hoffter gydol ei oes, ac nid rhyfedd pan gofir am ei gefndir teuluol. Roedd Charles Owen yn ŵyr i William Owen, Blaen-y-ddôl, Llanberis, arweinydd y gân yn eglwys Jerwsalem ac un o sylfaenwyr eglwys Nant Padarn yn 1868. Gydag Ieuan Gwyllt, gweinidog Capel Coch, 1865-69, cymerodd William Owen ran flaenllaw gyda mudiad Tonic Sol-ffa yn y pentref a'r cylch. Ef hefyd oedd arweinydd Côr yr Wyddfa, ac yr oedd yn un o'r gwŷr a sefydlodd Cymanfa Ganu Annibynwyr Sir Gaernarfon yn 1885. Pan ddathlwyd Jiwbili y Gymanfa yn 1935 yr oedd y dôn 'Gethsemane' o waith William Owen yn y rhaglen. Bu farw yn 1893 wedi 40 mlynedd o wasanaeth gyda chaniadaeth y cysegr yn eglwysi Jerwsalem a Nant Padarn. Ar ei ôl ef fel arweinydd y gân yn Nant Padarn daeth ei fab, Jonah William Owen, a bu ef yn y swydd am gyfnod o 20 mlynedd hyd ei farw yn 1913. Yr oedd ef yn unawdydd o fri ac enillodd wobrau lawer fel tenor. Bu ganddo yntau hefyd gorau ac fe arweiniodd Cymanfa Ganu Dosbarth Bethel amryw o weithiau a bu hefyd yn aelod o Seindorf Arian Llanrug a Seindorf Arian Llan Ffestiniog.

Yn 1900, ac yntau yn 17 mlwydd oed, dewiswyd Charles Owen i gynorthwyo ei dad gyda'r plant yn Nant Padarn, ac ar farw ei dad yn 1913 codwyd ef ac Owen, ei frawd, i arwain y canu cynulleidfaol. Byr fu tymor Owen gyda'r gwaith gan iddo ymuno â'r fyddin ar ddechrau rhyfel 1914 ac yn 1916 fe'i clwyfwyd yn Ffrainc a bu farw mewn ysbyty yn Birmingham.

Arweiniodd Charles Owen y canu yn Nant Padarn am gyfnod o 47 mlynedd o 1913 hyd ei farw ar Ragfyr 31, 1960. Felly, rhwng y tri, William Owen, Jonah Owen a Charles Owen rhoddwyd 107 mlynedd o wasanaeth cerddorol i eglwysi Jerwsalem a Nant Padarn. At hyn gellir nodi bod Jonah mab Charles Owen wedi cynorthwyo gyda'r canu yn Nant Padarn am ragor na 25 mlynedd, a bod Aled, mab arall, wedi bod yn organydd am ragor na 35 mlynedd.

Yn ychwanegol at arwain y canu yn Nant Padarn, arweiniodd Charles Owen nifer mwr o Gymanfaoedd Canu yn enwedig Dosbarth Bethel a Dosbarth Cwm-y-glo a bu galw am ei wasanaeth fel beirniad cerdd yn eisteddfodau'r cylch. Bu hefyd yn aelod o Seindor Arian Llanberis am flynyddoedd. Bu ganddo amryw o gorau a ddygodd fri i bentref Llanberis, yn eu plieth *The Snowdon Ladies Choir* a gipiodd y wobr yn Eisteddfod Môn yn 1920. Côr y Cyn-filwyr a gipiodd y wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1921 ac yna'r Côr Cymysg a enillodd yn Eisteddfod Cantre Arfon yn 1924. Diau mai ei gyfnod mwyaf llewyrchus fel arweinydd côr oedd rhwng 1930 a 1940 gyda Côr Undebol Llanberis pryd y bu'n fuddugoliaethus ym mhrif eisteddfodau'r gogledd, yn eu plith Pwllheli, Abermaw, Corwen, Penrhyndeudraeth, Llanrwst (ddwy waith), Y Rhyl (ddwy waith), ac yn goron ar ei lafur yn y cyfnod hwn — y wobr gyntaf yn ail gystadleuaeth y Corau Cymysg yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1935. Yn anffodus chwalwyd y côr hwn gan yr Ail Ryfel Byd ond ail gyfodwyd ef wedi'r rhyfel, a bu am gyfnod o dan arweiniad ei fab, Aled Owen, ac yn perfformio un o'r campweithiau yn gyson bob blwyddyn.

Gwasanaeth olaf Charles owen i ganiadaeth Llanberis oedd llusgo yn ei lesgedd i hyfforddi Côr Plant y pentref ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1960. Yn ei wely yr oedd pan ddaeth y newydd yn hysbysebu am fuddugoliaeth y côr.

Bu'n darlledu droeod gyda'r Côr Undebol ac o Nand Padarn. Cymerodd ran mewn dosbarthiadau eraill pryd y rhoddodd ei atgofion am ganu corawl a chantorion Llanberis.

Pan ystyrir na chafodd ddiwrnod o addysg gerddorol, onid yw y gwasanaeth a gyflawnodd yn syndod, a hynny yn rhad ac am ddim. Ac er mor brysur a diwyd y bu gyda'r corau, eisteddfodau a chymanfaoedd, ni esgeulusodd ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul na chyfarfodydd wythnos eglwys Nant Padarn.

* * *

(Yn rhyfedd iawn, ychydig ddyddiau cyn i'r erthygl hon ddod i law'r golygydd, awgrymwyd gan un o ddarllenwyr yr Eco *y byddai'n dda cael erthygl yn cofnodi hanes un arall o gymwynaswyr cerdd Llanberis, sef y ddiweddar Miss Clarice Williams, Summer Hill. Beth mdani, chi fu'n aelodau o gorau Miss Williams? Anfonwch eich atgofion neu luniau ar hanes y corau atom.)*

joe brown
CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

Am anrhegion Nadolig a werthfawrogir trwy'r flwyddyn

★ Bargeinion ar ddillad 'Stone Monkey'
★ Hetiau, capiau a menig fleece
★ Dillad thermal a dillad plant
★ Crysau, cotiau a trowsusau fleece
★ Llyfrau teithio a mynydda, rycsacs a bagiau

Llanberis, Ffôn 870327
Hefyd yng Nghapel Curig
(tu cefn y post) Ffôn: 01690 720205
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
joe brown

CYFARCHION Y TYMOR
i bawb yn yr ardal
oddi wrth
TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BRIAN A PHAWB YN SIOP
SPAR
LLANBERIS
Dewch atom am eich holl anghenion bwyd a diod Nadolig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Michal a Brigid Moran a'r plant
Sea Fresh Chip Shop
Stryd Fawr LLANBERIS 870425
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Sue Lowe
odyn copr
66 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 871366

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR LLANBERIS 870925
Ffacs: 0870 056 8461
Safle Gwe:
www.mountainart.demon.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.demon.co.uk
★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau ★ Printiadau
★ Posteri ★ Ffotograffau
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
FFARM FÊL YR WYDDFA
STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: 870218
Mêl
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Garvin, Wil a Jim
W.G. ALLSUP
Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, a Dydd Calan, 1 Ionawr 1999. Gwasanaeth dydd Sul ar 27 a 28 Rhagfyr
Gwasanaeth arferol dydd Sadwrn, 2 Ionawr 1999

FFAWD A FFYDD gan Y Gwalch

Mae rhai digwyddiadau yn ddigon i wneud i rhywun feddwl mai cadwyn o ddamweiniau yw bywydau llawer. Daeth y sylweddoliad i fy meddwl yn ystod tymor y Cadoediad eleni pan roddwyd pwys ar gofio dioddefaint y Rhyfel Mawr yn ystod yr un y lladdwyd Ellis, brawd fy nhad, tra'n ymladd gyda'r Awstraliaid ym mrwydr Hangard Woods, gerllaw Villers-Brettoneaux y tu allan i Amiens.

Galwyd ar eu catrodau ar fyr rybudd i ddal y lein tra roedd adrannau toredig eraill yn ffoi y ffordd arall. Roeddent yn adnabyddus yn Ffrainc fel ymladdwyr bidogau, a chyda'r arfau rheini y troesant y llanw yn Villers-Brettoneaux (lle mae cofadail iddynt) fel y disgrifia Thomas Penrose Marks yn ei gofiant o'r cyfnod *The Laughter Goes from Life.*

When we go a few miles to Villers-Brettoneaux, there is hardly anything left of the town which nestles in a hollow. In some of the streets there are shallow trenches. Only twenty yards separated the Jerries and the Aussies.

The fighting here must have been desperately fierce and often hand-to-hand. This was the farthest point reached by the advancing German Army in their drive for Amiens. It was here that they attacked in hordes and were mown down. As one wave faltered or fell back, another took its place. It was here that the men from the Never-Never fought with their backs to the wall and barred the way and flung the Germans back. There are no finer fighting men that the Australians. The Huns really fear them.

Along the rising ground to the East of the town there are several lines of trenches where the Germans dug themselves in in their attempt to stabilise the line. But the Aussies drove them out of these positions and over the crest of the hill and many miles beyond.

Anghyswllt efallai ar yr olwg gyntaf yw dweud fod gor-nai Ellis, bedwar ugain mlynedd ar ôl brwydr Hangard, yn byw ym Mharis, filltiroedd i'r de. Mudodd yno o'i fro fel cannoedd eraill, serch fod ganddynt gymwysterau i gyfrannu tuag at y Gymru Newydd, fel y gelwir y dalaith erbyn hyn gan seryddwyr y Cynulliad o annelwig ddefnydd ac ansicr drefn. Fel y dywedodd gŵr graddedig wrthyf unwaith wrth borth y dôl: 'Heblaw am y di-waith a'r nepotistiaid, fasa 'na ddim Cymru'.

Mae'r llanc yn byw yn heol Mirbel ar gyffiniau'r Latin Quarter; nepell o waith tapestri enwog Les Gobelins a'r Gerddi Botanig ar un llaw, a'r Sorbonne a'r Luxembourg ar y llall. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys Les Arenes de Lutece ers cyfnod y Rhufeiniaid ac yn gymysgfa o bob cenedl ond, yn ôl ei air, yn fwy gwâr nag aml dref Gymreig.

Nid yw'n brin o gymdeithion fodd bynnag: Morrociaid Sieneaid, Gwyddelod a Llydawyr sydd yn fawr eu diddordeb yn y Gymraeg. Ond ei gyfeilles anwes yw Iren Rivière am mai hi efallai yw'r ddolen gyswllt yn ei ffawd bersonol.

Aeth Joan a minnau i Ffrainc un Tachwedd (tymor doeth i fynd), i chwilio am fedd f'ewythr yng ngwylltineb gwlad y Somme. Roedd ein cyfaill, y diweddar Barchedig Deiniol Wyn Edwards, cyn-ficer Penisa'rwaun, wedi anfon at y War Graves Commission yn Llundain i ofyn am gyfarwyddid daearyddol i ganfod y fan ac fe'i cafodd, mewn manylder. Serch hynny, ni phrofodd yr antur ymarferol mor hawdd ar y fath adeg anhydrin, a llesteiriwyd ni hefyd gan brinder trafnidiaeth i fan mor anghyfanedd.

Ond o godi'n gynnar i ddal yr unig gerbyn cyhoeddus o Amiens, a oedd yn mynd unwaith y dydd i'r cyfeiriad, cawsom ein cludo i geg lôn wledig a aeth â ni yn y diwedd i bentref diarffordd Hangard. Roedd hi'n ddiwrnod o smwc ac ambell i sglent o eirlaw, ac roeddem yn falch o ymochel unwaith mewn cwt ieir ar bwys bwthyn. Wrth glywed yr ieir yn stwyrian daeth gwraig allan ac, wedi inni lwyddo i'w rhoi ar ddeall nad oeddem yn bwriadu ei hamddifadu o'i heiddo pluog, fe'n cyfarwyddodd ni ymhellach.

Dilynasom ffordd drol laswelltog nes dod at arwydd â'r geiriau, *Cimetiere Anglais* arno yn cyfeirio i'r caeau, ac wedi troi i'r rheini, gwelsom fod y glaswellt yn diflannu mewn môr o fwd, cefnder, mae'n debyg, i'r un roedd yn rhaid i'r milwyr druan fyw ynddo yn ddyddiol yn y ffosydd.

Ar ôl cerdded ar draws y tir gludiog yma am beth ffordd, daethom i gyfarfod â dynion a cheffylau yn cario bît a chawsom gyfarwyddid ychwanegol i fynd at ymyl coedwig fawr a oedd yn annelwig draw. Roedd yn rhaid cerdded wedyn gydag ymyl y coed i gyrraedd y fynwent.

Cyn i ni ddod at y coed daeth yn dopyn o niwl sydyn gan orchuddio'r gorwelion ac yr oeddem yn ei gario gyda ni fel crwban a'i gragen. Ar ôl cerdded am hir aethom i ddechrau amau ein bod ar goll. Ar hynny gwelsom arlliw o groes fain yn ymddangos o'r niwl. Roeddem wedi canfod y fan.

Mynwent fechan iawn yw Hangard Woods wedi'i hamgylchynnu â mur uchel ac yn ymylu ar dir âr. Roedd yn amlwg bod rhywun yn teithio o bell yno i'w chadw mor gymen. Milwyr Ffrainc sydd yno; y rhai a arhosodd gyda'r Awstraliaid i wrthsefyll y gelyn. Cawsom hyd i lyfr y rhestrau yn y cwpwrdd o dan y groes a gwelsom ynddo fod yna dri o wŷr Awstralia yno hefyd yn erbyn y mur gogleddol a f'ewythr oedd un o'r rheini. O'u gweld felly yn driawd ymysg yr holl Ffrancwyr, roedd y darganfyddiad yn cadarnhau yr adroddiad a gafwyd am eu tranc: eu bod yn aelodau o batrol ar flaen y gatrawd a aethant ar eu pennau i *snipers.*

Roedd sefyll yn y fan honno uwchben y beddau yn nistawrwydd arall-fydol y goedwig a'r niwl, yn brofiad nas anghofiwn yn fuan. Gresynu a wnes na chafodd fy nhad y cyfle i fod gyda ni i weld lle roedd wedi sôn amdano mor aml yn ei gof am ei frawd.

Cael â chael wnaethom ni i gyrraedd y ffordd fawr yn ein holau i gyfarfod y cerbyd ar ei ddychweliad yn llawn o ferched gwladaidd. Yn wir roedd yn ein hatgoffa o 'Foto Rhiwen' ers talwm.

Yr oeddem wedi gobeithio dal y trên wib ganol y pnawn o Amiens i Paris, ond roeddem yn rhy ddiweddar a gorfu inni fodloni a disgwyl am drên lleol, arafach. Roeddem yn rhannu cerbyd â merch ddymunol yn ei hugeiniau cynnar, a'i gwallt wedi'i dynnu'n dynn am ei phen. Roedd hi'n amlwg yn chwilfrydig wrth weld ein cyflwr gwlyb a lleidiog, a dechreuodd sgwrsio.

Yvette Ballerat oedd ei henw ac yr oedd hi'n athrawes yn Bethune. Yr oedd ar ei ffordd adref i weld ei mam weddw yn Mirbel. Wrth wahanu yn y Gare du Nord, cyfnewidiasom gyfeiriadau a chynhaliwyd gohebiaeth am gyfnod. Unwaith, ar eu ffordd i Iwerddon, galwodd y ddwy i'n gweld yn Llandrillo a buom ninnau yn eu cartref hwythau. Mae gennyf gof i Yvette fynd â ni i weld bedd ei thad ym mynwent fawr Pere Lachaise a chawsom ein synnu wrth weld y meini coffa gwych; rhai ar ffurf cabannau ffôn gyda lluniau'r meirwon ar silffoedd oddi mewn iddynt; a mwy fyth, fe welsom ddarnau o eirch yn cael eu llosgi mewn cornel — wedi eu codi o feddau a gâi eu rhentu am gyfnod yn unig.

Daeth inni'r newydd yn y diwedd fod Yvette yn briod ac wedi cartrefu yn Villemomble y tu allan i Paris. Erbyn hyn ei henw oedd Rivière a'i gŵr yn ddarlithydd. Roedd iddynt un ferch fach o'r enw Iren, a buom yn eu cartref yn adolygu hen amseroedd tra chwaraeai fy mab a'r ferch fach a oeddent o'r un oed.

Wedi hynny, fel y mae cysylltiadau fel yna'n gwanhau ymhen amser, peidiodd yr ohebiaeth am flynyddoedd, hynny yw, nes yr aeth yr hogyn i Baris ar spec. Cafodd ei drechu gan chwilfrydedd ac aeth i Villemomble. Yno cyfarfu â merch ifanc osgeiddig a oedd yn ddieithryn llwyr iddo — fel yr oedd yntau iddi hithau. Ond buan yr adferasant adnabyddiaeth.

Roedd Yvette wedi cadw yr hen gartref yn Mirbel ac fe'i rhoddodd i'r llanc i drigo, fel talisman am yr amser gynt. Lloches delfrydol yn y ddinas nad yw byth yn cysgu.

Wrth ymson yn ddiweddar, ni allwn lai na dyfalu: petai brwydr heb fod yn Hangard; petai f'ewythr heb gael ei ladd; pe baem heb golli'r trên gyflym . . . petai . . . petai . . . Sut bynnag, fel yna y syrthiodd y coelbren.

Y MADOGWYS:
cadw'r chwedl yn fyw

Ym mis Chwefror 1999 mi fydd Dalier Sylw yn cyflwyno *Y Madogwys* gan Gareth Miles yng Nghanolfan Waunfawr i lansio Gŵyl John Evans — dathliad i nodi daucanmlwyddiant marwolaeth un o arwyr di-glod Cymru. Mae trefnwyr yr ŵyl, Antur Waunfawr, yn paratoi rhaglen chwe mis o ddigwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol i goffáu yr arwr lleol. Mae'r ŵyl yn dechrau ar 25 Chwefror 1999 gyda chynhyrchiad Dalier Sylw o *Y Madogwys* ac yn gorffen yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999 gydag agoriad swyddogol Amgueddfa Goffa John Evans ar safle Antur Waunfawr. Mi fydd *Y Madogwys* wedyn yn teithio i ganolfannau cymuned ledled Cymru yn ystod mis Mawrth 1999.

Mae drama Gareth Miles — sy'n frodor o Waunfawr — yn dilyn siwrnai anhygoel John Evans yn 1792 o'i gartref yng nghefn gwlad Cymru i bellteroedd yr Unol Daleithiau i geisio darganfod disgynyddion Madog. Yn ystod y cynhyrchiad cawn gwrdd â Iolo Morganwg a'i griw yn Llundain, Thomas Jefferson a oedd yn cydnabod pwysigrwydd John i'r Unol Daleithiau, ynghyd ag Indiaid Brodorol a fforwyr. Bydd y cast yn cynnwys actorion a cherddorion o Gymru ac Indiaid brodorol a fydd yn cydweithio i greu gwead unigryw o gerddoriaeth, dawns a defod wrth gyflwyno'r stori anhygoel hon sy'n rhagori ar *Pocahontas* Disney!

Yn syml, mi fydd *Y Madogwys* yn noson allan wych — noson i'r holl deulu gyda rhywbeth i bwb. Cerddoriaeth, caneuon a dawns — traddodiadol a chyfoes — rhai ohonyn nhw'n gyarwydd; eraill y byddwch wrth eich bodd yn eu dysgu o'r newydd! P'run bynnag mi fydd hi'n anodd peidio a chymryd rhan. Felly, ymunwch yn yr hwyl a mynnwch gadw'r chwedl yn fyw yn eich ardal chi.

Mae Dalier Sylw yn barod yn derbyn gwahoddiadau gan gymunedau ledled Cymru i berfformio *Y Madogwys.* A fyddai'ch cymuned yn hoffi gweld y cynhyrchiad? A fyddech chi neu rywun o'ch cymuned yn fodlon hyrwyddo perfformiad? A oes gennych ddiddordeb, ond yn ansicr beth fydd oblygiadau hyrwyddo perfformiad? Cysylltwch â Mai Jones am sgwrs ar (01222) 236 650.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mewn cyfarfod o'r Cyngor cyfeiriwyd at y cyd-gyfarfod a gafwyd gyda gweithgor Amgueddfa Lechi Cymru a Pharc Padarn i drafod y grant a dderbyniwyd ganddynt. Roedd teimlad cryf ymhlith aelodau Llanddeiniolen mai ychydig iawn o fantais a ddeuai i'r plwyf yn sgîl y grant. Cyfeiriwyd at y ffaith fod y cymwysterau i gyd, ar wahân i Rheilffordd yr Wyddfa, o fewn ffiniau plwyf Llanddeiniolen. Cytunwyd awgrymu i'r gweithgor y dylent ystyried cyfrannu tuag at gyhoeddi llyfryn yn tynnu sylw at henebion lleol ym mhlwyf Llanddeiniolen a hefyd iddynt ystyried cyfrannu at sefydlu Lôn Las Arfon a fyddai o fudd nid yn unig i ymwelwyr ond hefyd i drigolion y fro. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried y posibilrwydd o symud ymlaen i sicrhau mynediad swyddogol tuag at Graig yr Undeb.

Yn dilyn cyd-gyfarfyddiad â swyddogion Cyngor Gwynedd ar safle llwybr Cae Goronwy, Fachwen, roedd y Cyngor yn unfrydol yn ei wrthwynebiad i'r llwybr cwrteisi sydd ar y safle. Cytunwyd i bwyso ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod cerddwyr yn cael tramwyo y llwybr swyddogol heb unrhyw rwystrau.

Manteision nifer o fudiadau gwirfoddol y plwyf ar dderbyn rhoddion ac fe gytunwyd i anfon £100 tuag at Apêl America Ganol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES
LLANBERIS
870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

Adloniant
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg
efo'r Organ

AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF

LAKESIDE

CHINESE TAKEAWAY
47 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda

oddi wrth
BOB ac ANNIE KANE

Gwesty Erw Fair

LLANBERIS Ffôn: 872400
a GWESTY'R ALPINE LODGE
LLANBERIS Ffôn: 870294

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES
a'r MEIBION

870 902 ac **870 444**

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

DYMUNA
MERVYN, DILYS
a JENNIFER

CASTLE GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

---

Padarn Lake Hotel

NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
i chi oll
oddi wrth **TERRY**
VAL, LUCY A'R STAFF

LLANBERIS, Ffôn: 870260

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Llythyr o'r America

Cambria, Wis.
Oct 7th 1884

Anwyl Frawd,

Gyda llawenydd y derbyniais 3 o lythyrau oddiyna, un oddiwrthyt ti, un oddiwrth fy Nhad, ac un oddiwrth Thomas, a thrwy yr holl cefais lawer iawn o newyddion.

Y beth a dynof fy sylw gyntaf oedd hanes Morris yn y 'Genedl' wedi disgyn i gymaint o drybini, ond yr wyf yn sicr nad oedd ef yn ei deimlo yn drybini, ddim hanner cymmaint a'i rieni gartref. Yr oeddwn yn teimlo yr adeg honno wrth ei ddarllen ei fod wedi gwneud peth yn ei le, bydd gan ei feistr a phawb arall fwy o feddwl o hono o lawer, a bydd yn lles iddo yntau. Peth iawn yw gweled plwc ynddo mor ieuanc, pe buasai mwy ynwyf innau pan yn ei oed buaswn yn llawer gwell allan heddyw rwy'n credu.

Peth mawr yw cael meddu ar ddigon o werth i fyw yn onest yn y byd yma, gonestrwydd tuat at ein gilydd, a byw yn onest i Dduw. Mae mwy o beth mewn gonestrwydd, nag yr ydym erioed wedi ei feddwl. 'Gonestrwydd yw mam llwyddiant'.

Gwell i mi beidio a myned i fanylu yn rhagor ar gynnwys eich llythyrau, na fydded i chwi synied trwy hynny fy mod yn eu troi o'r neilldu yn anysytyriol, ond credu yr wyf eich bod yn fwy awyddus am fy hanes, ac am hanes y wlad oddiamgylch.

Bore Sabboth ddiweddar buom 4 o hononom mewn buggie yn myned i gael golwg ar fonwent Cambria, ac yn wir cefais gystal pregeth yno ag a gefais er pan wyf yma.

Y mae y fonwent yn gorwedd 1 a hanner miles oddi yma (sef Llan). Mae mewn lle dymunol iawn yng nghanol dolydd breision, wedi cael eu cau yn 40 acres am filoedd o aceri o'i chwmpas, a hithau fel ornament yn eu canol yn myned a 5 acre o le.

Cefais fwy o hyfrydwch yn y fonwent hon nag mewn un o'r blaen, yr u peth o herwydd ei phrydferthwch. Ni welais ond un mor brydferth a hi o hono yn Dublin. Ychydig iawn o feddau sydd yno nad oes yno fonuments arnynt. Maent o dair troedfedd i 12 troedfedd o faintioli, a'r oll o honynt yn Marble a Scotch Granite. Yr hyn a'i gwnaiff yn ddyddorol i chwi fydd y teulu sydd wedi eu claddu yno.

Y gyntaf a sylwaf arni yw monument dewyrth R. Closs. Y mae yn 9 droedfedd o uwchder, a'r holl o honi yn marble, ond ei sylfaen. Yr oedd yn werth 800 o ddoleri, y mae yn 4 sgwar ac ar y pedair ochr y mae Closs wedi ei garfio. Ynghyd a'r plant a'i wraig. Yn debyg i hyn.

Ar yr ochr deheuol:

CLOSS
To the memory of the children of
Ellen and Robert Closs

Jane	**Thomas**
Died	**Died**
Oct 20th 1845	**Sept 13th 1852**
Aged 3 weeks	**Aged 9 months**

Evan
died Nov 8 1853
Aged 6 yr 7 mth

Ar yr ochr orllewinol fel y canlyn:

Robert Closs
Died
Dec 8 1872
Aged 69 yr & 10 months

Ellen
Wife of Robert Closs
Native of Wales
Emigrated to Wisconsin 1845
Died March 20 1861
Aged 51 years

Dyna ichwi gymaint a allaf ei ddweud am hen ewyrth Robert Closs. Yn agos iddo mae ei chwaer, gwraig Pen y Gwryd. Nid ydynt wedi gosod un ar fedd yr hen Pen y Gwryd a Morris Roberts etto.

Y mae hon yn gofgolofn fawr a hardd iawn. Tebyg i hyn y mae y cerfiad yn darllen:

Jane Closs Rowlands
Died
Spt. 21 1867
Age 72 yrs. 7 mth. 7 day

Yn agos iddi mae bedd Owen ei mhab ynghyd a chofgolofn a'r cerfiad fel hyn:

Owen J. Rowlands
Died
April 3 1864
Age 27 years

Yn ei ymyl etto mae Ellen y ferch, a'r cerfiad yn darllen yn debyg i hyn ar ei cholofn:

Ellen Closs Rowlands
Died
June 19 863
Age 31 years

Fe allai y bydd hyn o ddiddordeb i chwi y teulu yr ochr yna i'r Werydd.

Gwelais fedd Hephsibah, merch i Griffith Sion Pritchard, Pentre Castell, a'r geiriau hyn ar ei cholofn:

Hephsibah
Priod
Robert Henry
Bu farw yn Cambria
Hyd 26 1872
Yn 31 mlwydd oed

Ust! isod yng Nghrist Iesu — yr huna
Nid rhinwedd galaru
Cyn awr tranc gwraig ieuanc gu
Duw yn obaith adnabu.

Ei gwr

Cofnodiaf oddiar feddau plant yr hen batriarch duwiol o'r Rhyd-ddu:

Anne
Merch y Parch William ac Anne Jones, Snowdon.
Bu farw Mawrth 7 1855 yn 19 mlwydd oed, ar ol diodddef mis o gystudd, gan ddiffyg anadl.
Hunodd yn yr Iesu mewn gorfoledd, gan ddywedyd

Dros droseddwyr fel myfi
Rhoes ei hun ar Galfari
Trwy gyfiawnder fy meichiau caf fyw.

Ellis J. Jones
Priod
Emma J. Jones
a mab
Parch Wm. a Anne Jones
Snowdon
Welsh Prairie, Wisconsin
Gynt o Rhyd Ddu, G.C.
Bu arw o'r ddarfodedigaeth
Mawrth 11 1865
Yn 33 mlwydd a 9 mis oed
Bu yn aelod o Eglwys Dduw oi febyd, a bu farw mewn gorfoledd.

Gen. John J. Jones
Priod
Jennie L. Jones
a mab Parch Wm. ac Anne Jones
Snowdon, Wisconsin
Bu farw o'r chronic diarrhea
Chwef 13th 1867 yn 39 mlwydd oed, ym mhen y flwyddyn wedi dod o'r Rhyfel, wedi ymladd am 4 blynedd a 7 mis dros ei wlad yn 46 Reg. Illinois.
Hunodd gan dystiolaethu pan yn marw, ei fod yn myned i wlad well.

Jane Jones
merch
Parch Wm. ac Anne Jones
Snowdon, Wis
Bu farw Medi 12 1869
yn 27 a 9 mis oed
Wedi byr a thrwm gystydd or inflammation of the brain
Bu farw mewn gorfoledd.

Dyna i chwi mor agos i fy lle ag y gallaf, bob un ag sydd o ddyddordeb i chwi, yr wyf yn siwr y bydd fy Nhad yn falchach o rhywbeth fel hyn rhagor na buaswn yn rhoddi rhyw dryth ar y wlad. Cofnodais amryw o englynion oddiar y beddau, ond rwyn meddwl na chefais y rhai goreu o lawer. Bu agos i mi a gadael allan R. Jones, brawd y Jonesiaid heb ei roddi ichwi. Dyma fel y darllener ar ei fonument yntau:

Richard Jones
Late of Dolwyddelen
North Wales
Died Sept 11th 1860
Aged 51 years & 4 months

Yr oedd yn dda gennyf ddeall am y fath hwyl a gawsoch tua'r Sassiwn eleni. Credaf fod son am bregeth Dr Thomas ym mhob cwr o'r wlad hon y mae Cymry ynddynt. Y mae y ffordd hon lawer iawn o son, yr oedd ein blaenor Wm. Rowlands yn darllen disgrifiad o honi o'r 'Cyfaill' yn y Seiat ddiwethaf mewn hwyl anghyffredin. Dyn llawn o ysbryd gweithio gydag achos Duw ydyw ef, ac hefyd yn llawn tan ac ysbryd crefyddol. Credaf pe buasai yn Llanberis y buasai yn un o'r dynion blaenaf yno. Sieryd ar unrhyw fater yn y Society neu rhyw le arall yn ddiddiwedd, erioed nid clywais ef yn gorphen ei araeth, mwy na Mr Jones, C.Coch. Merch i John Jones Hafod Lwyfog yw ei wraig. Pwy oeddyt yn ei feddwl wrth y John O. Jones, hwnnw oedd yn dod i'r wlad yma yn yr haf nesaf. Ai Jones C.Coch ai ynte John Ogwen Jones. Clywais fod hwnnw yn dod.

Yr oeddyt yn gofyn am fy mwriad at y gauaf yma. Mae'n debyg iawn mai yma y byddaf am y gauaf yma etto, ac wedi hynny at y Spring mae gennyf feddwl am fyned oddiyma am dir. Nid wyf wedi penderfynny yn sicr i ba le yr af, ond nid wyf yn meddwl yr af i Dakota achos y mae yn wlad rhy oer i feddwl ymsefydlu ynddi. Yr wyf yn meddwl mai gwiriondeb fyddai myned yno gan fod digonedd o leoedd o hinsawdd tyner a chynhesaf yn y gauaf. Cewch ychwaneg ar hynna pan y byddaf wedi penderfynny pa le i fyned. Yr ydwyf wedi cael cynnig ar amryw o leoedd eisioes, i weithio wrth y mis yr haf nesaf, a'r rhai hynny yn leoedd da iawn, gellwch feddwl wrth hynny nad wyf yn rhyw anerbyniol iawn yn ardal Cambria yma, fel rhai o'r teulu a ddaeth yma ar fy ol.

Cawsom Gyfarfod Ysgol dda iawn yn capel Sion yma wythnos i'r Sabbath ddiwethaf. Yn y bore am ddeg yr oedd holi plant a'r ieuenctyd, y blaenaf o'r 'Rhodd Mam' a'r olaf yn 'hanes Elias'. Yn holi y plant yr oedd John X. Roberts, Randolph, a'r ieuenctyd Wm. Rowlands ein blaenor. Am ddau o'r gloch, holwyd y dosbarth hynaf o'r 3 bennod o'r Epistol at y Galatiaid gan y Parch. David Pughe, Proscairon, a chawsom bregeth ganddo am 6 yr hwyr. Cawsom Sabbath difyrus.

Pa le mae Evan William? A yw y cefnder wedi peidio myned i ddewis rhyw babydd yng ngwlad y Gwyddel yna? Y mae yn hynod ddistaw ers talwm. A ydyw Lizzie a Janet, a Mary Kate ar gael o hyd. Byddaf yn disgwyl llythyr ofnadwy rhyw ddiwrnod oddiwrthynt. Mae'n debyg y bydd y 3 rhai o'r dyddiau dyfodol ar ol i'w season ddarfod. Yn galw i Cyfrin Gyngor ynghyd, i edrych pa fodd i setlio y sawl sydd yn anelu saethau attynt dros y Werydd yna. Mae'n fwy na debyg mai cyhoeddi gwrthryfel i'w herbyn a wnaent, ac anelu saethau a thanbelenau wrth yr ugeiniau, a'm clwyfo, fel nas gallaf godi i'w herbyn mwy. Cofia fi attynt oll. Pa fodd y mae dy gymydog, Tom, yn dod ymlaen? Cofia fi atto ac at modryb Sian, a Mary Hughes, os ydyn yno. Pa sut mae Jane? A ydyw hi yn Dinbych o hyd? Ychydig o'i hanes a garwn gael.

Fy nghofion serchog
attoch oll fel teulu.

Ydwyf, dy frawd
OWEN W. ROWLANDS

CLWB ERYRI

Yng nghyfarfod nos Wener, Tachwedd 6, yng Ngwesty'r Fictoria, cyfeiriodd y llywydd, Alwyn Evans, at y pleser a deimlid yn gyffredinol o weld Ralph Jones yn bresennol wedi cyfnod o waeledd. Yn ôl ei wedd a'i agwedd roedd yn amlwg wedi cael adferiad iechyd rhyfeddol. Dymunwyd yn dda i Mary, gwraig bardd y Clwb (Gwynn Davies) a fu hefyd yn wael yn yr ysbyty yn ddiweddar. I gloi ei sylwadau rhgarweiniol, llongyfarchodd Edgar Parry ar gyhoeddi ei lyfr swmpus a diddorol, *Tours of Wales and its Churches.*

Cyflwynwyd siaradwr y noson, y Parchg Gwynfor Williams, gan y cadeirydd Dafydd Ellis, a gyfeiriodd at ei yrfa amrywiol ac egnïol fel Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Ambiwlans yng Ngwynedd a bellach fel gweinidog yr Efengyl. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar y Gosb Eithaf, sef hanes datblygiad y crocbren fel prif gyfrwng o weinyddu honno fel arf honedig o blaid cyfraith a threfn. Cafwyd trafodaeth fywiog o'r llawr i ddilyn a diolchwyd i'r siaradwr a phawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan y Dr A. Gwyn Williams. Wrth ddod a'r gweithgareddau i ben cyhoeddodd y llywydd fod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Rhagfyr 4; cadeirir y cyfryw gan Geraint Lloyd Owen, Ffrwd Cae Du, a cheir anerchiad gan Edgar Parry, Caernarfon.

IOLO HUWS-ROBERTS

DEUNYDD AR GYFER RHIFYN NESAF O'R ECO ERBYN 7 RHAGFYR OS GWELWCH YN DDA

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646

TÎM PÊL-DROED WAUNFAWR 1998-99

PENCAMPWYR CYMRU

Cynhaliwyd yr olaf yn y gyfres o rasus mynydd Pencampwriaeth Rasio Mynydd Cymru ar y Sul cyntaf yn Nhachwedd a hynny o bentref fychan Cilcain, ger Yr Wyddgrug. Ar fore gwlyb ac oer, cychwynnodd bron i gant o redwyr ar daith ddeg milltir a thair mil o droedfeddi o ddringo, gan gynnwys copaon Foel Fenlli a Moel Famau.

Roedd hon hefyd yn rhan o bencampwriaethau Swydd Caer a daeth nifer o redwyr profiadol o gyrion ardal y Peak ac o'r Pennines i gystadlu, ond dau o redwyr Eryri a hawliodd y brig o'r cychwyn cyntaf, gyda James McQueen o Fethesda a Colin Donnelly o Ddinorwig yn newid safleoedd gydol y ras. Roedd Colin yn cael y blaen ar y dringfeydd ond James yn hyrddio heibio i lawr y gelltydd llithrig. James a goncrodd y mwd ar y diwrnod gan orffen rhyw ddau funud ar y blaen i Colin, ond roedd yr ail safle yn ddigon i Colin hawlio Pencampwriaeth Cymru gan iddo ennill y tair ras arall yn y gyfres.

Felly, daeth Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru i fro'r *Eco* eleni. Dyma'r tro cyntaf i Colin ennill y bencampwriaeth ers iddo ei hennill am y tro cyntaf erioed ddeng mlynedd yn ôl. Ond yn y cyfamser bu'n Bencampwr Prydain a chafodd y fraint o fod yr aelod cyntaf o Glwb Rhedwyr Eryri i ennill Ras yr Wyddfa — yn rhedeg dros dîm yr Alban!

Eleni, Colin Jones o Bontrug oedd y Cymro cyntaf i ennill Ras yr Wyddfa. Dyna ddau Colin lleol wedi ennill y ras ryng-wladol. Benaethiaid ysgolion cynradd y fro: gwyliwch am unrhyw redwr ifanc addawol o'r enw Colin!

Bellach mae'r tymor rhedeg traws-gwlad wedi cychwyn gyda cystadleuaeth ryng-wladol yn cael ei chynnal yn Llanelwy yn ystod y mis, a'r drydedd ras yng Nghynghrair Gogledd Cymru yn cael ei chynnal ar feysydd chwarae'r Brifysgol yn Nhreborth ar y Sul olaf yn Nhachwedd.

OK AR YR OCHE!

Cawsom ein cyflwyno ar y teledu yn ddiweddar i ddau dîm cenedlaethol Cymreig oedd yn bencampwyr byd. Y tîm cyntaf oedd ein tîm pysgota môr ond yn anffodus, ychydig ddyddiau wedi'r cyfweliad, llithrodd y goron gyda'r tîm yn cipio'r ail safle ym mhencampwriaeth eleni. Hyn yn sicr yn dipyn o gamp. Yn ôl rhai, pysgota yw'r gamp fwyaf poblogaidd o ran cyfrannwyr. Yr ail bencampwyr yw'r tîm dartiau. Bu enwau Leighton Rees, Alun Evans a Richie Burnett yn amlwg dros y blynyddoedd ond dyma'r tro cyntaf i dîm Cymru gipio'r bencampwriaeth. Yr oedd aelodau'r ddwy garfan yn siomedig yn y diffyg sylw a roddwyd i'r ddau dîm ac yn sicr y diffyg noddwyr. O gofio'r miliynau a gyfrennir i bêl-droed a rygbi — yn enwedig o gyfeiriad y cyfryngau — mae'n sicr fod ganddynt bwynt dilys.

Yn ein cynghrair dartiau lleol yng nghylch Caernarfon mae traean o'r tymor bellach wedi mynd heibio ac efallai bod rhai arwyddion i bwy fydd y tlysau yn mynd eleni. Bu un newid sylfaenol yn nhrefniadaeth y gemau eleni. Gwnaed i ffwrdd â'r gystadleuaeth 601 — a oedd yn fwy poblogaidd na'r 'o gwmpas y bwrdd' gan rhai chwaraewyr. Yr oedd hefyd yn gyfle i'r chwaraewyr na châi gêm yn y brif gystadleuaeth i daflu'r saethau. Cynghrair 'o gwmpas y bwrdd' yn unig a geir bellach, gyda phob cwpwl yn chwarae 'y gorau o dair gêm'.

Yn y pac sy'n dilyn mae pedwar o'r timau lleol yn y brif adran. Mountain Rangers (heb dîm pêl-droed yn anffodus erbyn hyn) sy'n ddi-guro ar y brig wedi deg gêm. Tîm A Padarn Lake sy'n drydydd, pedwar pwynt yn brin. Mewn rhes wedyn daw Prince of Wales Llanberis, Wellington Deiniolen a thîm A Bedol Bethel. Bydd yn ddiddorol gweld — gyda 20 gêm i fynd — a ddaw tlws pencampwyr y gynghrair hon i fro'r Eco.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CROESAIR RHAGFYR

Mae 1, 3 a 25 ar draws, 17, 23 a 28 i lawr yn cysgu'n braf bellach



AR DRAWS

1. Yr un sy'n mynd yn groes i'r ysgol ar y bwrdd (5)
3. Yr un sy'n wledd i'r Ffrancwr (6)
6. Llaca (3)
9. Gwraig briod ..... (6)
10. ..... a'r wraig yn ôl, ond ar flaen y pen (5)
11. Gwg yn arllwys o ddyn wedi digio (3)
12. Yr hyn sy'n diogelu'r drws (3)
13. Hanesion (7)
16. Mewn tymer ddrwg ym mynwes y cysurwr (3)
19. Eiriolwr mewn tîm pêl-droed? (8)
20. Ailegino (8)
24. Y wefr sy'n dod o garu eirias (3)
25. Yr un sy'n cyfrannu i'r Eco (7)
27. Rhedegfa (3)
31. Mab yr hogan 'cw (3)
32. Cwrs bywyd (5)
33. Cybyddlyd, â halen? (6)
34. Digofaint (3)
35. Y diafol meddw yn esgeulus (6)
36. Perffaith, fel Llan yn y canolbarth (5)

I LAWR

1. Calon a chalon mam ar chwal? Na yw'r ateb (6)
2. Diawl o ddyn pan mae wedi meddwi (5)
4. Merch ddewr (6)
5. Ethol Sais o'r enw Ronald i fod yn rhan o'r atom (8)
6. Gwneud delwau (6)
7. Math o dreth lle telir cyfran o enillion i'r eglwys (5)
8. Lle go dywyll o olwg yr haul (6)
12. Person â chosfa, neu un sy'n chwilio am ffafriaeth (6)
14. Ym Mwlchtocyn yn y man! (3)
15. Eco gan gôr o Sir Fôn (6)
17. Yr un sydd yn cyfarth? (3)
18. Nage, ei hanner! (3)
21. Gall glycha'r dre' glan môr yma gyfrif, yn ôl y gân (8)
22. Cyfnewid yn 5 i lawr (3)
23. Yr un a groesodd y llinell o flaen y 'sgwarnog (6)
25. Ifor yn drysu rhwng dau begwn Dyfed ac yn creu niwed (6)
26. Casglu cotiau defaid (6)
28. Yr un sydd a'i waed yn ei ben wrth gysgu? (6)
29. Basged (5)
30. Trefn haenen mewn coed (5)

Atebion Croesair Tachwedd

Derbyniais atebion i groesair mis Tachwedd gan Eurwyn Thomas, Waunfawr; Gwen Griffith, Deiniolen; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Olwen Owen, Llanberis; Chris Roberts, Llanrug; Elfed Evans, Llanllechid; Beryl Jones, Garndolbenmaen; Ceinwen Williams, Bethel; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Ceridwen Williams, Llanrug; G. Gill, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Mabel Parry, Porthmadog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Eluned Jones, Pencaenewydd; Jennie Williams, Clynnog; Megan W. Jones, Bangor; Dorothy Jones, Llanrug; Mary Davies, Waunfawr; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; M. P. Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Rosemary Williams, Tregarth; Vera Griffiths, Llanberis; E. Eurwen Roberts, Tregarth; Mair E. Jones, Pwllheli; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Nansi Davies, Rhuthun; Moreen Lennon, Llanberis; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; Margaret Roberts, Caernarfon; Mair Evans, Caernarfon; Tegid Roberts, Llanrug a Mair Ffoulkes, Penisarwaun.

Doedd pob un ddim yn hollol gywir ac ymgais Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda oedd yr un a dynnwyd allan o'r het oedd yn cynnwys y rhai nad oedd camgymeriadau ynddynt. Llongyfarchiadau a'r £5 i chwi.

Anfonwch atebion croesair Rhagfyr i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE, erbyn **10 Rhagfyr**, os gwelwch yn dda.

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch o galon i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd - Y Te Bach, Côr Meibion Dyffryn Peris â'r grwpiau St John. Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd "***Gwefreiddiol***" i holl ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* oddi wrth staff Mynydd Gwefru

Cyngerdd Nadolig

Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni am 3 o'r gloch brynhawn Ddydd Sul, Rhagfyr 20fed yng nghwmni Aria, Côr Meibion Dyffryn Peris a Seindorf Deiniolen. ***Mynediad am ddim.***

Arddangosfeydd (tan y Nadolig)

Oriel Eryri : ***William Selwyn***; ***Nancy Morris***, ***Pat Pearson*** ***R Thompson***, ***Bridget Wright*** a ***Ieuan Williams***

Oriel Padarn: ***Trefor Baker***

Oriel Elidir: ***Charles Barker*** a ***RM Watson***

Oriel Peris: ***Keith Shone***

Anrheg Nadolig! **Caffi / Bistro Cyswllt**

Mins Pei yn rhad ac am ddim wrth brynu paned o goffi Cappuccino neu Siocled Poeth tan 23 Rhagfyr.

Nerth i'r genedl drwy Weithio a Natur

FIRST HYDRO
An EDISON MISSION ENERGY Company

CHWARAEON

Egin Golofnwyr

Yn ddiweddar rwyf wedi ceisio rhoi cyfle i fagu a meithrin colofnwyr ifanc ar dudalen chwaraeon yr *Eco*. Rwy'n ddiolchgar iawn i ambell unigolyn yn Ysgol Brynrefail sydd wedi ymateb i'm cais — yn wir, mae dau ohebydd gwadd y mis hwn!

Stori o lwyddiant a ddaeth i ran tîm hoci o dan 18 oed yr ysgol sydd gan Siân Green. Fel ôl-nodyn i'r erthygl dyma nodi bod Ysgol Brynrefail (Gwynedd), Ysgol David Hughes (Môn), ac Ysgol Eirias (Conwy) wedi bod yn ymgiprys am bencampwriaeth Eryri. Brynrefail oedd â'r aelodau ieuengaf o'r tri thîm ac enillwyd y Tlws gan Eirias. Daw cyfle eto i griw Brynrefail rwy'n siŵr. Mae plant Ysgol Brynrefail yn falch bob amser o gael cynrychioli eu hysgol. Rwy'n sicr fod hyn yn amlwg yn yr ail adroddiad — Dafydd Pritchard sy'n croniclo hanes y gêm cwpan rhwng yr ysgol ag Ysgol Tywyn. Diolch i'r ddau ohonynt am eu cyfraniadau ac edrychwn ymlaen at fwy o gyfraniadau yn y dyfodol.

Locos ar y trac iawn

Gofynnais ychydig fisoedd yn ôl a yw'r ardal wedi colli'r traddodiad o fod yn un o gadarnleoedd y bêl-droed. Ni fu coron y Junior Cup yma ers hydoedd a dim ond rhyw dlws cynghreiriol yn awr ac yn y man a ddaeth yma. Mae'n braf cyhoedd bod pethau'n newid y tymor hwn. Aiff y prif sylw i dîm Llanberis sydd wedi cael cychwyn da i'r tymor yng Nghyngrair Fitlock. Wedi said têm maent yn yr ail safle gan golli un gêm yn unig. Maent yn llwyddiannus yn y cwpanau hefyd. Trechwyd Bangor yn ddiweddar yng Nghwpan Alves — ond wn i ddim a yw hyn yn beth da ai peidio. Oherwydd mai nifer fach o dimau sydd yn y gynghrair mae'r timau yn ymgiprys am yr Alves drwy ffurf cynghreiriau llai. Mwy o gemau felly, ac o gofio cyflwr trwm maes Ffordd Padarn, efallai y bydd hyn yn anfantais. Y rhediad sydd wedi denu syle yw un yng Nghwpan Her y Gogledd. Y gwrthwynebwyr yn y rownd nesaf fydd Bae Colwyn — ym marn rhai nhw yw prif dîm y gogledd. Llanberis fydd yn chwarae gartref ond clywais fod y Bae eisoes wedi gwneud cais i ail-leoli'r gêm. Nid wyf yn tybio y bydd pwyllgor Llanbêr yn rhy awyddus gan fod cyfle yma i wneud tipyn o elw ar Ragfyr 12fed. Be wnaith Deiniol Graham, gynt o Man-U, ar faes 'eang' Ffordd Padarn tybed? Un fydd yn edrych ymlaen at y gêm yw Gwyn Jones, y rhwydwr yn rhengoedd y Darans. Un o Fae Colwyn yw Gwyn ac yn gyn-chwaraewr i dîm y Bae. Tipyn o achlysur i edrych ymlaen ato felly.

Mae pethau'n poethi yng Nghyngrair Gwynedd hefyd. Llanrug sy'n arwain ar hyn o bryd wedi ennill saith allan o wyth gêm gan sgorio'n rheolaidd. Triphwynt y tu ôl iddynt mae Deiniolen. Cawsant ambell grasfa gan Deiniolen ond mae eu dycnwch a'u dyfalbarhad yno o hyd. Onid braf fyddai gweld un o'r ddau dîm yma yn ennill y gynghrair gan symud i'r Fitlock am y tro cyntaf yn eu hanes.

Twrnament Hoci dan 18 oed Gwynedd

Ddydd Llun, 26ain o Hydref, cynhaliwyd Twrnament Hoci dan 18 oed Ysgolion Gwynedd ar gae-pob-tywydd Llanrug.

Pedwar tîm oedd yn cystadlu, yn cynrychioli ysgolion Brynrefail; Syr Hugh Owen; Y Berwyn, Y Bala; a Choleg Meirion-Dwyfor.

Ysgol Brynrefail ac Ysgol y Berwyn oedd yn chwarae yn y gêm gyntaf. Ar ôl gem unochrog enillodd Brynrefail o dair gôl i ddim, gyda Diana Roberts yn sgorio dwy gôl a Siân Green yn sgorio un.

Chwaraewyd ail gêm Brynrefail yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Wedi cychwyn anffodus, pan sgoriodd tîm Syr Hugh, brwydrodd y genod yn ôl ac mewn ychydig funudau fe sgoriodd Diana Roberts i wneud y sgôr yn gyfartal. Aeth Brynrefail ymlaen i sgorio dwy gôl arall yn y gêm gyffrous hon gan orffen gyda'r canlyniad 3-1, Claudia O'Donnell yn cael gôl y tro hwn a Diana Roberts yn ychwanegu un arall at ei chyfanswm hi.

Roedd trydedd gêm Brynrefail yn erbyn Coleg Meirion-Dwyfor. hon oedd gêm galetaf y twrnament i'r tîm ifanc ond llwyddasant i gael canlyniad cyfartal 0-0 er gwaethaf oedran hŷn y tîm o'r Coleg.

Ar ddiwedd y twrnament roedd Coleg Meirion-Dwyfor ac Ysgol Brynrefail yn gyfartal o ran pwyntiau ond Brynrefs ddaeth i'r brig ar wahaniaeth gôliau.

Bydd y tîm yn mynd ymlaen, ddydd Mwrth, 10fed o Dachwedd, i gystadlu yn Nhwrnament Hoci dan 18 oed Ysgolion Eryri, lle byddant yn wynebu timau o Fôn a Chonwy.

Llongyfarchiadau i Becky Jones ar ei dewis i garfan hoci dan 16 oed gogledd Cymru yn dilyn treialon yn Cei Connah yn ddiweddar.

SIÂN GREEN

Brynrefail *v* Tywyn (yng nghanol y glaw!)

Dwi'n siŵr eich bod wedi clywed y stori o'r blaen. Yn ôl yr arfer fe enillodd hogiau Brynrefail dan bedair ar ddeg oed gêm arall. Ysgol Tywyn a ddioddefodd y tro yma. Am yr ail gêm yn olynol fe gurwyd ein record, a'r sgôr y tro hwn oedd 13 gôl i Frynrefail a 3 i Ysgol Tywyn!

Owain Morris a agorodd y sgorio ac yna aeth yn ei flaen i sgorio 5 i gyd. Y sgorwyr eraill oed Marcus Orlik a sgoriodd 3 gôl; Jonathan Gordon a sgoriodd 3 hefyd; Paul Hughes a gafodd 1 gôl; a Keith Williams a gafodd ei gôl gyntaf i dîm yr ysgol. Gallai'r sgôr yn hawdd fod yn fwy ond ein bod wedi methu llawer o gyfleon hawdd.

Anaml iawn roedd Gavin Davies, ein golwr, yn cael ei brofi ond yn yr ail hanner roedd Ben Boothroyd yn cael llawer i ddelio ag ef ac, yn anffodus, fe sgoriodd Tywyn 3 gôl hwyr.

Felly, rydym drwodd i'r rownd nesaf ar ôl perfformiad gwych arall. Y gwrthwynebwyr fydd Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli. Gan mai Mr Dafydd Owen, yr athro yno, yw rheolwr tîm Cymru, efallai y bydd cyfle i rai o'r hogiau wneud 'lle da' iddyn nhw eu hunain.

DAFYDD PRITCHARD

Pytiau wrth Basio

Gwnaf gais ar i swyddogion y timau lleol adael i mi wybod beth yw trefniadau eu gemau dros gyfnod y Nadolig. Gallaf wedyn roi cyhoeddusrwydd yn y rhifyn nesaf. Oes yna gêm ddarbi dros yr Ŵyl tybed?

* * *

Roedd Cymru yn wlad falch wedi perfformiad ein tîm rygbi cenedlaethol yn erbyn De Affrica yn Wembley. Mae gen i feddwl mawr o Graham Henry. Mae iddo rhyw onestrwydd a chyfran fawr o reolaeth. Nid yw'n addo rhywbeth na ellir ei gyflawni. Hoffais ei sylw mai ei gryfraniad mwyaf oedd rhoi hyder i chwaraewyr i wneud defnydd o'r hyn sydd gan ein chwaraewyr, sef trin a thrafod y bêl yn gelfydd. Efallai fod neges ym mherfformiad difflach y tîm 'A' yn erbyn yr Ariannin. Roedd y tîm hwnnw wedi'i hyfforddi gan un sy'n hyfforddi tîm yng nghyngrair gwantan Cymru. Truenus oedd gweld y chwaraewyr yn adlewyrchu'r hyn wnaent o Sadwrn i Sadwrn yn y gynghrair honno — pen i lawr, colli'r bêl a chicio dibwrpas. Gobeithio bod y chwaraewyr wedi sylweddoli beth sydd ei angen i blesio Henry — a'r genedl — erbyn hyn.

* * *

Tybed a fydd y sbarc a welwyd yn Wembley yn treiddio i bob camp yng Nghymru. Y tîm pêl-droed yn cyrraedd rownd derfynol Ewrop; y tîm rygbi yn gwneud siâp arni yng Nghwpan y Byd; Morgannwg yn ymgiprys am y bencampwriaeth; timau pêl-droed Cymru yn cynnwys mwy o chwaraewyr lleol — a Chymreig — yn eu timau. Pwy a ŵyr, ond gallwn i gyd eu cefnogi i'r carn.